# ECO'R WYDDFA

Rhif 129 HYDREF 1987 Pris 20c.

# ANGEN YSGWYDD ARALL DAN Y BAICH

**Ie, dyma ni yn apelio unwaith yn rhagor am gymorth. Tybed oes 'na un ohonoch yn barod i roi ychydig funudau y mis i'r Eco fel Trefnydd Plygu'r Papur? Nid yw'n waith anodd a chewch bob cymorth. Am ragor o fanylion, cysylltwch, os gwelwch yn dda ag unrhyw un o'r golygyddion; mae eu rhifau ffôn ar dudalen 2. Edrychwn ymlaen i glywed gennych.**

# CODI ARIAN MEWN 'SGUBOR



*Trefnwyr y noson — Meirion Pritchard, Arwyn Roberts, Emlyn Bayliss, Rhian Pritchard a Gwilym Roberts.*

**Nos Sadwrn, Medi 19 codwyd dros £500 mewn digwyddiad arbennig yn Nant Peris ac mae'r arian yn dal i ddod i mewn. Prif atyniad y noson a gynhaliwyd dan nawdd Cangen Plaid Cymru Llanberis, mewn ysgubor ar fferm Tŷ Isaf, Nant Peris oedd Huw Chiswell a'i fand.**

Bydd yr elw a godwyd ar y noson yn cael ei rannu rhwng Ysgol Feithrin y Pentre a'r Apêl Ambiwlans lleol

"Cafwyd noson lwyddiannus dros ben eleni eto gyda thri chant o bobl yma a rydym wedi casglu dros bumcant yn barod ac mae arian yn dal i ddod mewn," meddai un o'r trefnwyr Gwilym Wyn Roberts. "Dyma'r ail dro i ni gynnal noson o'i bath yma ac rydym mewn dyled fawr i Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf, Nant Peris am eu caredigrwydd i ddefnyddio'r ysgybor ar y fferm yn ddi dal."

Trefnwyd y bar ar y noson gan Emlyn Baylis, tafarnwr y Vaynol Arms yn Nant Peris, ac elw'r bar ar y noson hefyd yn cael ei rannu rhwng yr Ysgol Feithrin a'r Apêl Ambiwlans lleol.

"Daeth pobol o bob cwr o Wynedd i wrando ar Huw Chiswell a'i fand yn canu, a chynhaliwyd Disco ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990", meddai un arall o'r trefnwyr Arwyn Roberts.

"Ni chafwyd dim trwbwl ar y noson, ac yn barod mae pobl yn gofyn pa bryd mae'r nesa'."

Trefwnyd raffl fawr ar gyfer y noson a gwerthwyd tocynnau ledled Cymru. Rhoddwyd y gwobrwyon gan bobol y pentref. Diolch iddynt. Dyma'r enillwyr: 1. Cinio i ddau yn y Bistro Llanberis a photel o champagne – Karon Owen, Stryd y Dŵr, Llanberis; 2. Lamp fwrdd, Debbie, dan ofal Iwan Arfon; 3. Potel Wisgi, Ffion Parry, Peris View Llanberis; 4. Bocs siocled, Mike Lock, Adran Cynllunio, Caernarfon; 5. Potel Martini, Olwen Morris, 1 Sgwar Glynllifon, Groeslon; 6. Lamp non i blant, Nia Ben Aur, Sycharth, Preswylfa, Llanberis; 7. Tegan, Gwyn Owen; 8. Potel Win, Marian Wayner, Pencadlys Ambiwlans, Caernarfon; 9. Cerdyn Sidan, Llanberis 871234; 10. Hamper, B. Roberts, 33 Pentre Helen, Deiniolen; 11. Bocs siocled, Ron Haynes, Crown Court, Caer; 12. Bocs siocled, C.A.V.R.J. Thomos, Pencadlys Ambiwlans, Caernarfon.

Dymuna'r gangen ddiolch yn fawr iawn i bawb gyfrannodd tuag at y noson a'i gwenud mor llywddiannus.

# CANTORES Y FLWYDDYN



**Pe baem yn mynd ati i ymchwilio yn ôl-rifynnau Eco'r Wyddfa am yr unigolyn o'r fro hon sydd wedi ymddangos fynychaf ar dudalennau'r papur, yna'n sicr doi enw Rhian Owen o Lanberis yn eithaf agos i frig unrhyw restr. Wrth fanylu, gwelwn enw neu lun o Rhian gan amlaf yn rhifynnau Medi, – y mis sy'n dilyn bwrlwm yr Eisteddfod Genedlaethol.**

Naw mlynedd yn ôl i'r mis diwethaf yr ymddangosodd ei llun ar y dudalen flaen am y tro cyntaf a hynny am ddod yn gyd-fuddugol ar yr unawd i ferched rhwng 12 a 15 oed yn Eisteddfod Caerdydd. Byth ers hynny mae Rhian wedi bod yn brysur gwenud enw iddi hi ei hun yn y byd canu, – yn lleol ac yn genedlaethol.

Bellach a hithau ond yn 22 oed, mae wedi datblygu yn soprano o safon uchel iawn ac mae ei theulu, pobl ei phentref a'i bro wedi ymfalchïo yn ei llwyddiant ar hyd y blynyddoedd ac yn arbennig felly yn ei theitl diweddaraf 'Cantores y Flwyddyn'.

Enillodd yr anrhydedd yn dilyn cystadleuaeth yn Abertawe a drefnwyd gan gymdeithas Côr Orffiws Treforus. Ei rhaglen hi, yn cynnwys darnau o waith y cyfansoddwyr Mansel Thomas, George Gershwin a Handel a swynodd y beirniad Arnold Lewis. Roedd pedwar ymgeisydd yn y rownd derfynol. Enillodd dlws, hambwrdd arian a siec am £200.

Rhian enillodd yr Unawd Soprano rhwng 19 a 25 oed ym Mhrifwyl Porthmadog eleni, a hi a Bryn Terfel a rannodd Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts – sef 'Ysgoloriaeth i'r cystadleuydd mwyaf addawol ..... i ddilyn cwrs hyfforddi lleisiol.'

Ar hyn o bryd mae Rhian yn fyfyrwraig yng Ngholeg Cerdd y Gogledd, Manceinion. Oherwydd pwysau gwaith mae'n bosibl na fydd yn cystadlu mor aml o hyn allan. Colled yn sicr i eisteddfodwyr ond newyddion da i amryw soprano arall!

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 129**
**HYDREF**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL**: Twrog Jones, Pros Kairon, Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU**: Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug. (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI**: Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

**GOLYGYDD CHWARAEON**: Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun (Llanberis 872407)

**DYDDIADUR Y MIS**: Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

**FFOTOGRAFFYDD**: Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**: Jonn Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT**: Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL**: Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**: Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI**: Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL**: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL**: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

**CAEATHRO**: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

**CEUNANT**: Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO**: Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)

**DEINIOLEN**: W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG**: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian. (870773)

**LLANBERIS**: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

**LLANRUG**: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

**NANT PERIS**: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-drudion, Nant Peris. (871327)

**PENISARWAUN**: Mrs Ann Evans, Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED**: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**WAUNFAWR**: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU HYDREF 29**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH HYDREF 20**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## CYNLLUN "BRYN AFON"

*Annwyl Syr,*

*Yn eich rhifyn olaf 'roeddech yn gwahodd sylwadau am y cynllun twristiaeth arfaethedig yn Mryn Afon, Llanrug. Gadewch imi ddeud yn glir nad oes gennyf wrthwynebiad i dwristiaeth cyn belled ei fod o dan reolaeth lleol a bod pobl leol yn cael y swyddi bras ac unrhyw elw yn aros yma yng Nghymru.*

*Un perygl mawr yn y diwydiant hwn ydi'r diffyg balans rhwng gwaith i ddynion ac i ferched. Merched yn dueddol o gael gwaith gweini a glanhau ar gyflogau isel: dynion yn cael y gwaith cynnal a chadw, garddwyr ayb. Ond pan awn at yr adran weinyddu dieithriaid gan fwyaf fydd yn y swyddi uchel. Pan fu'r dynion sy'n hybu'r fenter ar ran Mr R Hughes Jones o flaen y Cyngor Cymuned yn answyddogol, gofynais a oeddynt yn fodlon rhoi yn eu cais cynllunio eu bwriad i gyflogi pobl leol. Dywedodd un na fyddai hynny yn gyfreithlon, atebiad nad wyf yn ei dderbyn.*

*Cwestiwn arall ydi pwy sy'n codi'r arian. Os banc pa faint o arian uswirwyr LLundain sydd ynddo. Rwyf wedi cael dipyn o brofiad arian Llundain yn ceisio tyrchu i mewn i ddiwydiant yng Nghymru ac mae o'n drewi yn fy ffroenau. Mae rhai o'r bobol ariangar hyn yn gofalu nad ydynt yn masnachu yn eu henw eu huanin ac yn gofalu peidio dod i'r amlwg, ac maent yn beryglus o anfoesol yn y modd yn maent yn gweithredu.*

*Fel un sydf wedi brwydro ers 1944 am wellhad i Ffordd yr Orsaf (priffordd) ni fyddwn yn fodlon gweld gwelliant i ffordd Crawia ar drael Ffordd yr Orsaf sydd yn gydnabyddedig yn orberyglus i gerddedwyr a modurwyr o ddiffyg lled priodol a dim palmant.*

*Angen pennaf ein hardal ydyw gwaith cynhrychu efo'r sgliliau technegol sydd yn talu cyflogau da a rhoi gobaith i'r plant.*

*Buaswn yn meddwl fod cynllun Bryn Afon yn fwy addas i Glynrhonwy o ba le mae golygfeydd da, a modd i gyplysu chwarel, safle hamddena ac unedau ddi-breswyl rhan amser, ond mae 150 yn ormod ar y dechrau.*

*Yn gywir,*
*W.A. Jones*
*Y Dalar Deg,*
*Llanrug.*

## HEL STRAEON

*Annwyl Olygydd,*

*Nodyn byr i'ch atgoffa y byddwn yn ôl 'mewn busnes' yn fuan iawn: eisoes yn brysur yn wir yn 'Hel Straeon' ar gyfer dwy raglen yr wythnos — ar nos Fercher a Nos Sul. Bydd rhaglen gyntaf y gyfres newydd yn cael ei darlledu ar y 7ed Hydref.*

*Chwilio rydym eto eleni am unrhyw beth sy'n adlewyrchu bwrlwm a llawnder bywyd bro — y difyr, y diddorol, yr anarferol neu'r prin.*

*Anfonwch eich syniadau rhag blaen felly er mwyn i'ch bro chi gael sylw Cymru gyfan.*

*Yn gywir,*
*Ann Fôn Jones,*
*Ymchwilydd.*
*Gronant, Caernarfon.*
*Ffôn 77595*

## HAWL I WYBOD

*Annwyl Olygydd,*

*Oes yna rai o'ch darllenwyr yn teimlo eu bod ryw dro wedi cael cam, wedi bod a phroblemau cynllunio neu wedi prynu wy clwc? Ydyn nhw'n teimlo fod y gyfraith yn gymhleth iddyn nhw? Wel os ydyn nhw am farn arbenigol ar unrhyw fater cyfreithiol, dyma'r ateb iddyn nhw.Mae gennym ni gyfres o raglenni newydd cyffrous yn dwyn y teitl 'Hawl i Wybod' yn cychwyn Nos Fercher, 30 Medi am 7.30 p.m. Os oes yna unrhyw ddarllenydd am farn arbenigol ar unrhyw fater cyfreithiol anfoner at:*

*'Hawl i Wybod',*
*HTV Cyf.,*
*Y Ganolfan Deledu,*
*Yr Wyddgrug,*
*Clwyd CH7 1YA*

*ac fe wnawn ni ein gorau i egluro eich hawliau cyfreithiol ar ein rhaglen wythnosol.*
*Gan ddisgwyl yn eiddagr am eich atebion.*

*Yn gywir*
*Carol Byrne Jones*
*Cynhyrchydd a Chyfarwyddwr*



## LOGO SY'N OGLEISIOL

BLAS CAS yw'r enw a ddewiswyd gan aelodau Is-bwyllgor Ieuencid Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd fel enw ar gyfer eu pabell ar Faes yr Eisteddfod.

Lluniwyd y Logo gan Mark Rees Jones, aelod o'r Is-bwyllgor, sy'n frodor o Lanfairpwllgwyngyll, Ynys Môn.

Dilynodd Mark gwrs B.A. mewn Graffeg yng Ngholeg Celf Casnewydd, ac mae'n gweithio ar hyn o bryd fel dylunydd graffeg yng Nghaerllion.

Sylfaenwyd y Logo ar arwyddlun sywddogol yr Eisteddfod, ac yn ôl Mark 'mae'n cymryd safbwynt mwy gogleisiol.'

Mae'r Pwyllgor wrthi'n ddyfal ar hyn o bryd yn trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer wythnos yr Eisteddfod, ac yn ychwanegol at y gwaith arferol, mae trefniadau ar y gweill i gynnal Cyngerdd Roc ym Mhafiliwn yr Eisteddfod, yn ystod wythnos yr Eisteddfod a hynny am 7.30 o'r gloch.

Am fanylion pellach ynglŷn â gweithgareddau Blas Cas, neu unrhyw weithgareddau Eisteddfodol arall, cysyllter â:

J. Idris Evans, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, Moderator Wharf, Rhodfa'r Brenin, Casnewydd, Gwent NP9 1EX (0633) 54917.

## DEFNYDDIWCH EICH LLYFRGELL

**LLYFRGELL CANGEN LLANBERIS**

1. Y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn defnyddio amrywiol ffyrdd i gyflenwi gwasanaeth ac un o'r dulliau yw Llyfrgell Cangen.
2. Yn ddiweddar wrth edrych ar y defnydd a wneir o bob man gwasanaeth yn y sir gwelwyd bod rhai llyfrgelloedd yn llai prysur nag eraill.
3. Yn dilyn hyn penderfynwyd bod yn rhaid i'r adnoddau a ddarperir adlewyrchu'r defnydd yn well.
4. Felly o'r 1af o Hydref, 1987 bydd oriau agor eich llyfrgell yn lleiahau 1 awr yr wythnos i'r canlynol. Defnyddir yr arbedion mewn llyfrgelloedd mwy prysur.

Llun 4.00 – 7.00
Mercher 11.00 – 1.00; 2.00 – 4.30
Gwener 10.00 – 12.30; 2.00 – 6.00

**I gadw eich llyfrgell defnyddiwch hi**

J.M. Griffiths,
Llyfrgellydd y Sir,
Swyddfa'r Sir,
Caernarfon,
Gwynedd.

## GŴYL DDRAMA "Y PENTAN"

**Eleni eto, yn gysylltiedig â Gŵyl Ddrama Y Pentan, Papur Bro Dyffryn Conwy a'r Glannau, bydd cystadleuaeth ysgrifennu drama fer, addas ar gyfer ei pherfformio mewn Gŵyl Ddrama papurau bro.**

**Y beirniad fydd Mr Owen Huw Roberts, Ynys Môn, a cynigir gwobr o £50.**

**Ceir manylion pellach gan yr Ysgrifennydd Ann Jones, Pant-y-Carw, Llanrwst, Gwynedd. LL26 0PW (ffôn Llanrwst 640503).**

## ENWAU CYMRAEG YN DIFLANNU

*Annwyl Olygydd,*

*Yn rhifyn Medi o'r Eco, mae gohebydd Caeathro yn cyfeirio at newid enwau tai yn y fro, h.y. newid o'r Gymraeg i'r Saesneg. Ymddengys fod 'Frondeg' wedi mynd yn 'Cashlink House' a'r 'Hen Efail' wedi mynd 'The Old Smithy'. Yma yn ardal y Waunfawr aeth 'Groeslon Isaf' yn 'Capri', ac ar y ffordd i Lanrug mae 'Tanyffordd' bellach yn 'Harlequin Farm'. Wrth reswm tueddiad i'w gondemnio yw hyn, a thybed Mr Golygydd, a fyddai modd i ni gael rhestr gan ohebwyr lleol o'r newidiadau eraill sydd bellach ar enwau tai yn ei pentrefi hwy. Pwy a ŵyr na fydd haneswyr y dyfodol yn falch o gael gwybod beth oedd yr enw Cymraeg gwreiddiol?*
*Yn gywir,*
*Rol Wiliams*
*5 Pant y Waun*
*Waunfawr.*

MAE'R
**SAMARIAID**
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD
**BANGOR**
**354646**

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## "DYDDIADUR AWST MIS YR HEDDWCH 1945"

**Y mae darllen dyddiadur ymhen blynyddoedd ar ôl iddo gael ei 'sgrifennu yn ddiddorol dros ben. Dyma ran o'r dyddiadur a gadwodd fy nhad.**

Mercher Awst 1af: Diwrnod heulog, helaeth. Talu am dri chant o lo (stones rather).
Iau 2: Diwedd y Big Three Conference yn Potsdam y bore heddiw. Attlee yn Llundain yn y prynhawn. Diwrnod poeth heulog helaeth, prynu pren golchi.
Gwener 3: Treial Laval wedi dechrau.
Sadwrn 4: Cyfarfod pregethu Bryngwyn A yn dechrau heno. Parch Wyn Jones. Bu farw Sais, sef Mr Hill, Bod Elwy, yn 76 oed. Tywydd braf yn parhau. Pobl yn mynd er eu holidays.
Sul 4: Cyfarfod pregethu y Bryngwyn yn llewyrchus iawn.
Llun 6: Yr Eisteddfod Genedlaethol yn dechrau yn Rhos Llannerch Rugog. Y tywydd wedi torri mewn mannau. Mae'r chwarewlyr yn cael wythnos o wyliau a thâl amdano.
Mawrth 7: Cyhoeddi agoriad Yr Eisteddfod Genedlaethol am ddeg y bore. Y diweddar Richard Hughes, Birkehead yn ennill ar ganeuon i blant. Côr plant Caernarfon yn colli. Y tywydd yn oer heddiw. Yr Atomic Bomb. Bomb fawr newydd gan America a Phrydain. Synnu'r byd a chwalu tref.
Mercher 8: Sôn mawr am y bomb newydd, y ddyfais ddiweddaraf. Bu'r USA am bum mlynedd yn ei pherffeithio a bydd rhagor o berfeithio arni eto. Y tywydd yn gwella eto. Haul ac awel ysgafn gynnes.
Iau 9 : Rwsia wedi cyhoeddi rhyfel ar Japan, yn symud yn gyflym i Manchuria ar fil o filltiroedd o ffrynt.
Gwener 10: Heddiw daeth y newydd fod Japan yn ildio i delerau y pwerau mawr. Ond y mae'n aros i'w gadarnhau.
Sadwrn 11: Tywydd poeth iawn ers dyddiau, pobol yn llifo i lan y môr. Sôn fod Japan wedi ildio ond dim swyddogol felly fe â'r rhyfel ymlaen a'r bomio hefyd.
Sul 12: Y bomio ar Japan wedi ail gychwyn eto tra'n digwyl am ei hateb, Sul poeth. Y Rwsiaid yn ysgubo ymlaen yn Manchuria.
Llun 13: Tywydd poeth. Y thermometer yn 73 heddiw yn y cysgod. Ni ddaeth ateb Japan hyd yn hyn i gynnig heddwch yr Allies. Buom yn y fynwent heddiw yn trwsio'r beddau a blodau. Ail ddechrau bomio Japan eto. Siomi'r byd yw hyn.
Dydd Mawrth 14: Trial Petain yn terfynu heno meddir. Gobeithio yr arbedir ef yn 89. Japan yn parhau yn gyndyn i ildio. Dim ateb oddi wrthi heddiw. Baneri Buddugoliaeth yn Groeslon Marcathre , Caernarfon.
Mercher 15: Y brenin yn siarad am naw o'r gloch heno. Heddwch trwy'r byd heddiw. Japan wedi ildio, am hanner nos neithiw y cyhoeddwyd y newydd. Dedfrydu Petain i farw gydag argymell trugaredd. Syrcas fawr yn nhref Caernarfon, heddiw ac yfory. Llewod yno.
Iau 16: Dau ddiwrnod o wyliau ddoe a heddiw trwy'r wlad. Bonfires mawr ymhob man a goleuadau fyrdd. Cyfarfodwydd mawr heddiw trwy'r wlad. Tywydd dymunol ond ambell gafod, cwmwl a gwynt ysgafn.
Gwener 17: Yr ymraniad cyntaf yn Senedd y Blaid Lafur ddoe. Mwyafrif mawr iawn. Y Japaneaid yn ail ddechrau ymladd yn erbyn y Rwsiaid yn Manchuria ac yn ein herbyn ninnau yn Burma etc. Cyndyn ydynt o roi eu harfau i lawr. Prynu meat safe am £2 yn Siop Gruffudd Jones yng Nghaernarfon.
Sadwrn 18: Diwrnod braf teg. Japan yn hwylio i yrru dynion i gytuno â ni. Ond peth rhyfela mewn rhai mannau.
Sul 19: Diwrnod niwlog mwll. Envoy Japan wedi cyrraedd Manila yn barod i arwyddo ymostyngiad i Mc Arthur yfory.
Llun 20: Myn di'r dref i brynu paent.
Mawrth 21: Tywydd stormus heddiw. Glaw a gwynt.
Mercher 22: Paentio'r tŷ o'r tu allan. Y bom fawr wedi lladd a chlwyfo a gwneud heb gartref 500,000 o'r Japaneaid. Diwrnod braf, ychydig o wynt a haul drwy'r dydd.
Iau 23: Glaw yn difetha fy mhaent, Japan yn ildio.
Gwener 24: Stopio'r Lend Lease yn America heddiw. Cyflwr ariannol Prydain yn ddifrifol heddiw, medd y Prif Weinidog. Ychydig o law heddiw eto.
Sadwrn 25: Pryder a gofid oherwydd stopio'r Lend Lease.
Sul 26: Tywydd dymunol teg a hyfryd, heulog trwy'r dydd. Sul bendithiol a thawel.
Llun 19: Gorffen peintio'r tŷ.
Mawrth 28: Talu 14s 4c am bedwar cant o lo. Heddiw aeth ein milwyr i mewn i Japan ei hun y tro cyntaf. Cyn pen wythnos bydd ein byddinoedd wedi meddiannu Tokyo a holl lygnes Japan yn yr awyr a'r môr.
Mercher 29: Mynd i'r dref.
Iau 30:Cael benthyg Geographic Magazine gan Brian (fy ŵyr).
Gwener 31: Rwsia yn meddiannu Sacklin Island a hefyd ynysoedd i'r gogledd o Japan.
Felly y pery i'r mis derfynu.

# LLYFRAU NEWYDD CYMRAEG

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siopiyfrau lleol.

**Traed Rhydd**
Myrddin ap Dafydd
Gwasg Carreg Gwalch
60c.
*Y ddiweddaraf mewn cyfres o ddramâu byrion.*

**Pwy Biau Nhw?**
Rod Cambell ac Emily Huws
Cyhoeddiadau Mei
£2.50
*Llyfr print bras, llawn lliw, ar gyfer y plant ieuengaf.*

**Caneuon Enwog Cymru**
Cwmni Cyhoeddi Gwynn
£2.95
*Casgliad o ganeuon enwog Cymru, wedi'u trefnu gan John Hywel.*

**Merch Morfydd**
Hafina Clwyd
Gwasg Gwynedd
£2.75
*Hunangofiant*

**Cerddi T. Glynne Davies**
Cyhoeddiadau Barddas
£7.50
*Holl gerddi T. Glynne Davies wedi'u casglu ynghyd yn un gyfrol.*

**Cyfrinach y Castell**
Stephen Griffith
Y Lolfa
£2.45
*Nofel yn seiliedig ar hanes gwir Letty Landon, a lofruddiwyd ar yr Arfordir Aur.*

**Storiau Huw a'i Ffrindiau**
Alys Jones
Gwasg Gomer
£2.50
*Cyfrol o Straeon i blant.*

**Ifas Eto Fyth!**
W.S. Jones
Y Lolfa
£2.95
*Cyfrol arall yn llawn o ddigrifwch a throeon trwstan Ifas y Tryc*

**Edith Cwm Cloch: Telynores Eryri**
Esyllt Maelor
Gwasg Gwynedd
£3.50
*Hanes Bywyd a Gwaith Telynores Eryri*

**Epistolau Ioan a'r Datguddiad**
Edmwnd Owen
Gwasg Efengylaidd Cymru
95c
*Y diweddaraf mewn cyfres o lyfrau sy'n rhannu llyfrau'r Beibl yn unedau hwylus ar gyfer darlleniadau dyddiol. (Cyfres Bara'r Bywyd)*

**Chwarelwyr Cyntaf Ffestiniog**
M.C. Williams a M.J.T. Lewis
Parc Cenedalethol Eryri
£1.25
*Astudiaeth fer o chwarelwyr cyntaf Ffestiniog.*

## GŴYL AWDURON BARA CAWS


Bydd Stiwido Ddrama'r Brifysgol, Bangor yn fôr o chwys theatrig yn ystod yr wythnos Hydref 20fed – 24ain. Yno y cyflwynir Gŵyl Awduron Newydd 1987 gan Bara Caws, ffrwyth llafur gweithdai ysgrifennu'r cwmni. Yno bydd cyfle i weld Bryn Fôn, Valmai Jones, Morfudd Hughes, Maldwyn John, Erfyl Ogwen Parry a Rhiannon Williams yn perfformio pedair drama newydd sbon gan John Gruffydd Jones, Abergele, Ieuan Rhys, Caerdydd, Ifor ap Glyn, Dinbych ag Emlyn Gomer, Dyffryn Ardudwy. Cyfarwyddir yr holl waith han Cefin Roberts a Robin Griffith.

Yn ogystal â'r dramau cewch gyfle i weld Sioe Dafarn, lleisio barn yn y fforwm trafod, gwrando ar ddarlleniadau a phrofi adloniant amrywiol..

Cewch fanylion pellach drwy ffonio Bangor 355579. Cynigir gostyngiadau hael i bartion o 20 neu fwy.

Noddir yr ŵyl gan S4C, B.B.C., ac eraill.

## LLE MYNNO'R GWYNT




Mae Cwmni Theatr Gwynedd ar daith unwaith eto ym mis Hydref. "Lle Mynno'r Gwynt" gan Dr John Gwilym Jones yw'r ddrama a ddewiswyd y tro hwn.

Mae'r hanes yn cymryd lle rhwng 1939 a 1945 a gwelwn sut mae digwyddiadau'r cyfnod hwn yn effeithio ar deulu'r Mans.

Grey Evans sydd yn cyfarwyddo, a'r actorion yw Stewart Jones, Beryl Williams, Gwyn Vaughan, Janet Aethwy, Bethan Dwyfor, Tony Llewelyn, Mari Emlyn a Gareth Roberts.

**GERAINT OWEN**
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
**Cil-y-Mynydd WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 552**

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**

**Antiques Ivy Cottage BETHEL**
**Ffôn: Y FELINHELI 670556**

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU
Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**BETH AM DDOD I GYSTADLU I EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN**

Testunau yn y siopau llyfrau Cymraeg
Manylion pellach: Dafydd Orwig, Bethesda 600423

**Neu beth am ddod i fwynhau'r wledd yn Ysgol Dyffryn Ogwen Nos Wener, Tach. 13 am 6.30 a Dydd Sadwrn, Tach. 14 am 12.30 a 6.00**

# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL: Yn ystod yr Oedfa, Nos Sul Medi 6ed, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog, Y Parch John Morris, anrhegwyd Mr a Mrs Gwilym Wyn Williams, gynt o 3 Tai Orwig â darlun dyfrliw fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad o'u gwsanaeth i'r Achos. Bu Mr Williams yn flaenror gweithgar yn yr Eglwys am ddeunaw mlynedd ac yn drylwyr yn ei waith fel Ysgrifennydd yr Eglwys ac Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau Sabathol ac mae'r golled yma ym Mrynrefail yn sicr o fod yn ennill i Eglwys y Cysegr ym Methel lle mae ef a'i briod wedi ymaelodi. Talwyd teyrnged iddo gan y Gweinidog, ei gyd-flaenoriaid Mr Elfed Roberts a Mr Richard Wyn Evans ynghyd â Mr Bertie Roberts, llywydd y mis, a roddodd yn ogystal groeso i'r blaenoriaid newydd sef Mrs Jennie Angharad Roberts, Miss Lowri Prys Roberts a Mr Gwyn Hefin Jones i'r Set Fawr. Ymatebodd Mr Williams yn bwrpasol gan ddiolch am y fraint a gafodd i wasanaethu'r Eglwys a dymuno yn dda iddi i'r dyfodol.



SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Medi 21ain bu'r gangen ar ymweliad â Phlas Tanybwlch ym Maentwrog yng nghwmni nifer o gyfeillion o ardaloedd cyfagos. Er bod y glaw yn dymchwel wrth deithio'n hamddenol i fyny Bwlch Llanberis ac wrth ymdroelli tua Beddgelert i lawr Bwlch Aberglaslyn, cafwyd taith bleserus mewn cwmni hwyliog trwy Borthmadog a Phenrhyndeudraeth a chyrraedd yn y man i awyrgylch gynnes ac i ryfeddu at y moethusrwydd cartrefol oedd yn ein haros yn y Plas a fu unwaith yn eiddo i deulu'r Oakeley y tirfeddianwyr a pherchnogion y Chwarel gyfagos ym Mlaenau Ffestiniog. 'Roedd pryd o'r radd flaenaf yn ein haros ac yn dilyn cafwyd sgwrs ddiddorol llawn asbri ynghyd â sleidiau lliw yn arddangos planhigion lleol a'u rhinweddau meddygyniaethol gan Mr Twm Elias. Talwyd diolch am y noson gan y llywydd Mrs Pat Jones a diolchwn iddi hefyd am y trefniadau a'i gwnaeth yn noson mor ragorol.

DOSBARTH NOS: Bydd y Dosbarth Nos mewn Aglunio Dyfrliw yn cychwyn nos Fercher, Hydref 28ain dan nawdd Sefydliad y Merched. Bydd llywydd y gangen yn falch o dderbyn enwau pawb sydd â diddordeb gynted ag y bo modd.

CYFARFOD DOSBARTH PADARN: Cynhelir y Seiat Dosbarth Flynyddol, pryd y ceir Agoriad i'r Maes Llafur gan y Parch Trefor Lewis Deiniolen, yn y Festri, Brynrefail, Nos Fercher, Hydref 7ed am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

SUL DIOLCHGARWCH: Bydd y cyfarfodydd Diolchgarwch eleni yn cael eu cynnal ddydd Sul, Hydref 25ain yng Nghapel M.C. Brynrefail. Bydd oedfa'r ieuenctid a'r plant am 10 y bore a chyfarfod gweddi am 2 yn y prynhawn dan ofal aelodau'r eglwys.

# CAEATHRO

Gohebydd – Mrs Beryl Roberts, Erw Wen (C'narfon 353)

GWASANAETHAU'R CAPEL: Pregethir gan y canlynol yn ystod mis Hyfref:

Sul Hydref 4 – Glyn Owen am 2 y prynhawn. 11 Hydref – Parch Huw John Hughes am 2 y prynhawn. 18 Hydref Gwasanaeth Diolchgarwch am 5.30 yr hwyr. 25 Hydref – Parch Trefor Jones am 2 y prynhawn.

LLONGYFARCHIADAU: i Eirian Roberts, Sea View, am ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth talent o dan ddeuddeg oed yn Pontins, Prestatyn yn ystod mis Awst. Ac hefyd am fod yn llwyddiannus yn arholiad theori Gradd 2.

CYDYMDEIMLWN: â Julia Latham, Cefn Rhos Isaf, ar golli ei thad yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

# DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

CYFARFOD PREGETHU: Ar y Sul cyntaf ym mis Medi roedd Sardis yn ymuno â'n chwaer Eglwys Libanus, Clwt y Bont yn eu gŵyl bregethu flynyddol. Y cennad a sicrhawyd oedd y Cyn-Brifathro George John, Llandysul. Oherwydd ein agosrwydd i'r Coleg Enwadol ym Mangor fe gaem ninnau ei wasanaeth yn weddol gyson – tua pedair gwaith bob blwyddyn tra bu'n brifathro. Braidd yn denau oedd y cynulliad, er bod cryn sylwedd yn yr hyn a draethodwyd. Siomedig oedd hyn o gofio bod capeli Deiniolen wedi cau yn ffafr Libanus. Mae hyn yn tanlinellu'r arfer cynyddol o ddilyn pregethwyr dieithr yn unig. Fe'n gorfodir i ofyn yn sobr – a yw'r efengyl wedi colli grym ei neges i gynulleidfaoedd cyfoes pan maecynifer o eieunctid yn absennol? Cymerer yr awgrym yn garedig. Siom i ninnau hefyd oedd bod cyflwr iechyd yn gorfodi ein gweinidog i atal ei gefnohaeth arferol. Fe fu'n ffyddlon odiaeth i'r cyrddau ar hyd y blynyddoedd.

GWELLHAD: A hithau wedi derbyn gweithred law-feddygol ar ei choes yr ydym ninnau yn bryderus ynghylch y chwaer Katie Lewis, Maes Gwylfa, Clwt y Bont, – hithau wedi bod yn aelod ffyddlon yn Sardis am nifer o flynyddoedd. Gweddïwn am adferiad iddi gan ei bod yn un o'r rhai hynaf.

LLONGYFARCHIADAU i un o'n ieuenctid sef Miss Ruth Jones, Foel Gron, hithau ar sail canlyniadau arholiad yn wynebu ar gwrs Technegol ym Mangor.

PROFEDIAGETH: Goddefer i mi nodi'n gynnil i ni gael profedigaeth yn y 'Stryd' yn ddiweddar. Fe gludwyd y brawd Robert William Jones, 7 Maes Eilian i Ysbyty Gwynedd, ar ôl treulio ychydig ddyddiau yno, fe gollodd y dydd. Ei ddiddordeb pennaf ef oedd anifeiliaid, ac yn fwyaf arbennig ceffylau. Fe dreuliodd gryn dipyn o amser i sicrhau bod y ceffylau oedd dan ei ofal yn cael eu bwydo'n briodol. 'Roedd hyd yn oed y ceffylau yn colli cyfaill! Hebryngwyd ei weddillion i fynwent Llanddinorwig ar ddydd Mercher Medi 16eg. Roedd tyrfa niferus yn Eglwys St Mair i ddangos eu parch i'r ymadawedig. Y Parch. Ganon Rchard Jones, y Felinheli oedd yn arwain yr oedfa yn St. Mair gan nodi hoffter yr ymadawedig o dorri gwair ar adeg cynhaeaf, ac ef hefyd a wasnaethai yn y fynwent.

EGLWYS ST. MAIR: O Sul y 4ydd o Hydref fe fydd y gwasanaethau yn St. Mair yn newid i amser y gaeaf – sef dechrau am 3.45 yn lle 4.45, ac fe ddisgwylir i wasanaethu yno ar Sul Hydref 18ed, sef Diolchgarwch – y Parchg. Dyfed Wyn Jones, Ficer Llanllechid – offeiriad cymharol ieuanc.

DIOLCHGARWCH: Bydd Bedyddwyr y cylch yn myned i oedfa Ddiolchgarwch yng 'Nghaerllwyngrudd' Llanllechid.

CYMDEITHAS ADDYSG: Mae rhai ohonom yn dilyn cwrs byr o dan nawdd y W.E.A. yn y Ganolfan, cwrs bum 'noson yw hwn yn blaenori cyrddau'r Gymdeithas Ddiwylliadol

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Roberts, merch y diweddar Mr Robert William Jones, 7 Maes Eilian, Dinorwic, ddatgan ei diolchgarwch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phrofedigaeth.

APÊL LLEOL – EISTEDDFOD GENELAETHOL YR URDD, DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990

Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn byddwn fel pwyllgor yr apêl uchod wedi trefnu Noson Goffi a Chân pur arbennig yn y Ganolfan leol gan bod y noson ar y 29ain o Fedi – rhy hwyr yn y mis i ni adrodd amdani yn y rhifyn yma o'r Eco. Dywedwn ei bod yn noson arbennig oherwydd safon yr artistiaid a gytunodd i ganu ac adrodd sef Mary Wyn Jones (adrodd) Deiniolen; John Eifion Jones (Tenor) Garndolbenmaen; Robert Wyn Roberts (Bariton) Bontnewydd; Teulu Tŷ'r Ysgol – Dinorwig a Chof o Blant y pnetref o dan arweiniad Olwen Tŷ'r Ysgol. Mae ein diolch yn fawr i bob un ohonynt.

Eisteddfod: Dyma'r gweithgaredd nesaf y byddwn fel pwyllgor yn ei drefnu. Er nad yw yr holl drefniadau wedi eu cwblhau hyd yma 'rydym yn gobeithio cynnal yr eisteddfod ar nos Fawrth – Rhagfyr 1af yn y Ganolfan leol. 'Rydym yn ffyddiog y bydd yr Eisteddfod yma yn apelio at bob un ohonoch – pawb o bob oed a'n gobaith yw y cawn Eisteddfod bentref wirioneddol lwyddiannus. Ein gobaith yw cael y testunau allan o fewn yr wythnos ac yn natruiol byddwn yn eu dosabrthu o gwmpas y pentref. Cewch fwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Y Weledfa: Ateb y Bwrdd Trydan i gais y Cyngor Cymuned am ganiatáu ceir i fynd ar y weledfa o'r Allt Ddu oedd na allent weld y ffordd yn glir i wneud hynny. Ar y llaw arall 'roedden yn barod i gytuno i drefnu trip arbennig ar ddyddiad penodedig i gludo cyn-chwarelwyr mewn bws mini yno ond teimlad y Cyngor oedd na fyddai hynny yn foddhaol i'r mwyafrif a fyddai yn dymuno mynd yno yn eu hamser eu hunain. Tybed beth yw barn rhai ohonoch sydd yn teimlo'n gryf ynglŷn â'r mater yma. Byddai y Cynghorydd Glyn Tomos yn falch o gael clywed eich barn ar y mater.


Sylwch ar ein cyfeiriad newydd . . .

**J M JONES A'I FEIBION**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**Y SGWÂR, LLANRUG**

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol, Cerrig o bob math ar gael.

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)**

**Y Felinheli 670124 (nos)**

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .



I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

**SIAN**

**MAIRANNEDD LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 5366**

**EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG**

**Pnawn a Nos Sadwrn Hydref 10ed Yn Neuadd Ysgol Brynrefail**

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Cynhlaiwyd cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Goffa Nos Wener Medi 11eg, pan ddaeth cynrychiolwyr o Bwyllgor Gwaith Eisteddfod 1990 i annerch. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Geraint Elis a chroesawodd Mr Ifan Jones Davies, Cad. y Pwyllgor Gwaith a Mr Howel Roberts, y Trysorydd. Gwnaed apêl i'r ardal dderbyn targed lleol o £2,700 er hyrwyddo'r Eisteddfod; hyn yn gyfystyr a £3 y pen. Yn dilyn, ffurfiwyd Pwyllgor lleol a dewiswyd y Swyddogion canlynol:

Cadeirydd – Mr J.M. Griffiths, Llwyn Eithin; Ysgrifennydd – Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin; Trysorydd – Mr Goronwy Jones, Glangors; Aelodau'r pwyllgor yw: Nan Owen, Gwyneth Jones, Mair Read, June Owen, Beti Owen, Valmai Owen, Emlyn Jones, Mair Price, Lynwen Morris, Nora Parry, Rita Williams, Ann Jones, Geraint Elis, Gwyn Morris.

Nodwyd bod un ffordd syml iawn o gyfrannu a chael y Llywodraeth i helpu sef Cyfamodi i gyfrannu swm penodol dros gyfnod o 4 blynedd a chaiff yr Eisteddfod fantais o adalid y Dreth Incwm a dalwyd. Am bob £1 fyddwch yn ei gyfrannu bydd y Llywodraeth yn rhoi 27c yn ychwanegol. Gellir cael ffurflenni pwrpasol a mwy o wybodaeth gan aelodau o'r pwyllgor.

LLONGYFARCHIADAU: i Gwen Wiliams, Llain yr Ardd a Maldwyn Williams, Caernarfon ar achlysur eu priodas. Dymunir y gorau i'r ddau yn eu cartref newydd yn Minffordd, Llanrug.

i Trefor a Sheila Foulkes, Tyddyn Gwndwn ar enedigaeth mab.

i Gwyn a Nia Morris ar enedigaeth mab hefyd.

I Mrs Sian Jones, sy'n athrawes yn yr ysgol a'i gŵr Trefor ar enedigaeth mab iddynt hwythau hefyd.

ADRAN LEOL YR URDD: Cafwyd ymateb ffafriol iawn i'r Apî gan y Pwylgor am ragor i rieni i ymuno â'r Pwyllgor. Dyma'r swyddogion am y tymor 87-88.

LLywydd Anrhydeddus – Mrs Fanny Owen, Caernarfon; LLywydd – Mr Geraint Elis; Ysgrifennydd – Mrs Rita D. Williams; Trysorydd – Mrs Sian Robinson; Pwyllgor – Mrs Beti Owen, Mrs Mair Price, Llinos Wyn, Mrs Gwyneth Jones, Mrs Glenys Griffiths, R. Lloyd Jones, Mrs June Owen, Mrs Margaret Rees, Mrs Luned Davies, Eran, Mrs Lynwen Morris, Mrs Siân Hughes, Mrs Eleri Warrington, Mrs Mair Read, Mrs Anne Elis.

Bydd cyfle i bawb ymaelodi nos lau, Hydref 8fed yn y Neuadd am 6 o'r gloch. Tâl £1.30. Bydd y tymor yn dechrau nos Iau Hydref 15ed gyda Disgo'r Urdd o 6-7 o'r gloch. Byddwn fel cangen yn trefnu Noson Tân Gwyllt ar Dachwedd 5ed am 6.30 o'r gloch. Pris Tocyn fydd £1 yn cynnwys Ci Poeth a Chawl. Os oes gan unrhyw un hen ddodrefn neu sbwriel i'w llosgi fe'i derbynir tu allan i'r Neuadd o 5.30 ymlaen ar y noson honno.

YN 18 OED: Dymuniadau gorau i Barry Evans, 7 Tan y Cae fydd yn dathlu ei benblwydd yn 18 oed ar Hydref 20ed.

DIOLCH: Ar ôl blynyddoedd yn gwerthu'r Eco yn Seion mae Enid Price, Llys Gwynt bellach wedi trosglwyddo'r gwaith i Mrs Gwyneth Jones Fachell. Diolch i Enid am ei gwaith a dymuniadau gorau iddi yn y Coleg ym Mangor.

PWYLLGOR Y SGANIWR: Cynhelir cyfarfod o bwyllgor y Sganiwr yn y Neuadd Nos Wener, Hydref 16 am 7.30 i drefnu trosglwyddo cyfraniad yr ardal i gronfa'r Sganiwr.

MERCHED Y WAWR: Cafwyd noson ddiddorol iawn i agor tymor newydd y gangen dan lywyddiadth Mrs Lynwen Morris. Y wraig wadd oedd Mrs Pat Jones, Brynrefail pryd y cawsom gyfle i'w gweld yn addurno gwydr yn grefftus iawn. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Gwyneth Jones. Etholwyd Mrs Llinos Huws, Glyn Trefor a Mrs Wenna Huws Penrhos i'n cynrychioli ar y Pwyllgor Chwaraeon, a Mrs Eirlys Williams a Mrs Nan Rowlands, Y Ddol ar y Pwyllgor Celf a Chrefft. Nos Lun,Hydref 12ed am 7.30 p.m. cynhelir noson o Ddawnsio Gwerin noddedig yng Nglangwna Caeathro. Mae croeso i unrnyw aelod ymuno'n y dawnsio neu gefnogi ceir ffurlfenni noddi gan Mrs Lynwen Morris neu Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 14 yn yr Ysgol yng nghwmni Mr Emrys Evans, Llanrug yn sôn am addurno Ffynhonnau.

EISTEDDFOD BETHEL: Mae trefniadau'r Eisteddfod a gynhelir Sadwrn Tachwedd 7fed, yn hwylus iawn ond mae llwyddaint yr Eisteddfod yn dibynnu ar gefnogaeth y pentrefwyr. Os ydych yn cael trafferth i gael copïau o'r testunau cysylltwch â Mrs Gwyneth Jones, Y Fachell. Mae cynnyrch llenyddol i fod i law erbyn Hydref 16, felly brysiwch i orffen y limeric, y frawddeg a'r Stori Fer.

Nos Wener Hydref 2il cynhelir Disco yn y Neuadd, yr elw at yr Eisteddfod. Dechreuir am 6.30 i blant yr Ysgol Gynradd ac o 8.15 – 10.15 i blant yr Ysgol Uwchradd.

# PRIODI YN STROUD



SEION, LLANDDEINIOLEN: PRIODAS: Yn Eglwys y Santes Fair Fagdalen, Rodborough, Stroud Yn ddiweddar priodwyd Fiona merch Mr D. Vickers, Llundain a Mrs K. Vickers, Rodborough, â Dewi, mab Alwyn a Mair Williams Bro Hedd. Gweinyddwyd gan y Parchedigion John Forryan a W.R. Williams. Alwyn Roberts, Groeslon oedd y gwas, a Bethan James a Samantha Reading oedd y morwynion. Mae Dewi a Fiona yn gwneud eu cartref yn South Cerney ger Cirecncester.

# CYNGERDD ROC CAERNARFON

Caiff dilynwyr y byd roc yng nghylch Caernarfon gyfle arbennig cyn bo hir i weld rhai o brif gerddorion Cymru a'r Iwerddon yn chwarae'n fyw ar lwyfan, ond am un noson yn unig fel grŵp

Mae'r canwr roc o Sir Benfro , Jim O'Rouke, wedi ysgrifennu nifer o ganeuon newydd ar gyfer record ac yn ystod mis Hydref fe fydd yn recordio a chymysgu'r cyfryw yn Sitwido Sain.

Sicrahwyd gwasanaeth drymiwr Dire Straits, Terry Williams, i chwarae ar y record a dau arall o'r cerddorion fydd Donal Lunny a Davey Spillane, aelodau o'r grŵqp Gwyddeleg Moving Hearts. Y cerddorion eraill fydd Dave Bell ar y bâs a Greg Harris, gitar flaen.

Ar ôl wythnos o ymarfer caled yn Sir Benfro ddiwedd Mai, cynhelir cyngerdd byw am un noson yn unig yn Theatr Seilo, Caernarfon, ar nos Wener, 2il o Hydref. Fe recordir y noson gan Teledu'r Tŵr o Fangor fel rhan o raglen ddogfen maent yn gynhyrchu ar y prosiect.

Yn ôl llefarydd ar ran y cwmni mae'r fenter yn un gyffrous iawn.

"Mae Jim O'Rouke wedi llwyddo cael gwasanaeth cerddorion penigamp, rhai gorau ynysoedd Prydain. Ond yn llawer pwysicach na hynny mae wedi ysgrifennu caneuon newydd cryf. Mae hanner y caneuon yn ymwneud â sefyllfa Cymru heddiw a rhai personol yn ymwneud â'i gefndir yn Sir Benfro, ac mae'r hanner arall yn ymwneud â'i wreiddiau Gwyddelig â'r wlad honno. Gall y record fod yn garreg filltir hanesyddol yn y byd roc Cymraeg." Bwriedir ffilmio yn yr Iwerddon yn ystod mis Hydref hefyd.

Gobeithir rhyddhau'r record dros y Nadolig ac mae cynlluniau yn fuan yn y flwyddyn newydd i gynnal taith o gyngherddau led-led Cymru i hyrwyddo'r fenter, ond nid gyda'r un cerddorion! Rhan o'r cyfanwaith fydd y rhaglen ddogfen a fydd yn olrhain hanes y syniadau y tu ôl i'r fenter, rhywfaint o hynt a helynt y recordio ag ymweliad yr artist yn chwilio am ei wreiddiau.

Mae tocynnau ar gael ar gyfer y cyngerdd yng Nghaernarfon oddi wrth Teledu Tŵr, 320 Stryd Fawr, Bangor. (FFôn 351005).

**APÊL Y GALON**

Cynhelir Noson Goffi flynyddol Apêl y Galon yng Ngwesty'r Royal Caernarfon, Nos lau 8ed o Hydref o 7 tan 9 o'r gloch. Mae caridau Nadolig Apêl y Galon ar werth yn awr gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, FFordd Glanffynnon, Llanrug, Ffôn Caernarfon 4385.


**SELWYN MORRIS**

**Adeiladwr a Threfnydd Angladdau**

**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 2841**




**STRYD FAWR, DEINIOLEN** Ffôn Llanberis **871210**

**Crefftau llechi**: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill**: crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg

Hefyd yn Siop

**FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS**

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.**

BEDYDD: Bedyddiwyd Marvin, mab Mark a Margaret Pritchard, 58 Bro Rhyddallt brynhawn Sul, Awst 30 yng Nghapel Mawr gan y gweinidog y Parch John Morris.

GWELLHAD: Mae Mrs Ellen Howell, Bryn Elert ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Gobeithio y caiff wellhad buan.

BEDYDDIO: Dydd Sul, Medi 6ed bedyddiwyd Carl, mab Brian a Sharon Griffith, 35 Bro Rhyddallt, Llanrug yng Nghapel Mawr. Hefyd, bedyddiwyd Gethin a Mathew Roberts plant Anne a Noel Roberts, 20 Bro Rhyddallt, ac Anthony a Jamie Williams, plant Alwyn a Bernadette Williams, 8 Rydal Avenue, Darwen, Sir Gaerhirfryn yng Nghapel Pontrhythallt gan y gweinidog y Parch John Morris.

PRIODAS: Yn Eglwys Llanrug yn ddiwddar piodwyd Carol, merch Mr a Mrs Tecwyn Jones, Cae Rhos â Gareth, mab Mr a Mrs Trefor Williams, Penygroes. Gweinyddwyd gan y Parch Richard Jones, Y Felinheli. Dymunwn yn dda iddynt yn eu bywyd priodasol.

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Miss M Owen, 3 Hafan Elan ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

**I gyfarch Miss M Owen ar gyrraedd 90 oed**

**Heddiw i gyfarch Meri**
**Cawn wledd tra'n dymuno iddi**
**Fod heddiw yr hapusaf erioed**
**Ar ben ei blwydd yn 90 oed.**

**Fe welodd hi flynyddoed maith**
**Ond eto mae yn heini**
**Cymydog da ar hyd y daith**
**Caredig a llawn haelioni.**

**Hi garodd y petha gora**
**Yn fore ymlwybra i oedfa**
**Caiff wobr y Duw goruchaf**
**Ar ddiwedd oes rhydd iddi haf.**

**Emrys Owen**

GWELLHAD: DYMUNIADAU GORAU AM WELLHAD BUAN I Mrs G.A. Williams, Brynteg sydd wedi cael damwain yn ei chartref.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs Joan Maxwell, Noddfa yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, y diweddar Mr Evan Roberts, Pant Hyfryd, Y Groeslon.

CYFARFOD PREGETHU: Cynhaliwyd Gŵyl Bregethu Eglwys Hermon yn ddiweddar. Y pregethwr gwadd oedd Y Parch Haines Davies, Bae Colwyn, yr organydd oedd Mr Gareth Roberts, Gregynog.

LLONGYFARCHIADAU: i Eilir LLywelyn Jones, 4 Afon Rhos, ar dderbyn swydd fel technegydd gyda 'Sharp Electronics' yn Wrecsam.

DIOLCH: Bu Mrs Marie Pritchard, 9 Afon Rhos yn Ysbyty'r Bwthyn, Caernarfon am gyfnod yn ddiweddar. Mae Mrs Pritchard yn dymuno diolch i'r nyrsus a'r staff am eu gofal, ac i'w ffrindiau i gyd am y cardiau, yr anrhegion a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty. Dymunwn ninnau groeso adref iddi.

PENBLWYDD: Dymuniadau gorau am benblwydd hapus i Mrs S.L. Jones, 22 Hafan Elan. Mae Mrs Jones yn 89 ar Hydref 1af.

MERCHED Y WAWR: Dechreuodd tymor newydd y gangen Nos Fawrth Medi 8ed, yn ysgol Gynradd, Llanrug gyda Mrs Menna Williams yn llywyddu. Y wraig wadd oedd Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr yn adrodd hanes ei thaith i Batagonia yng nghwmni aelodau eraill o Ferched y Wawr Cymru. Dangosodd selidiau rhagorol o'r gwahanol lefydd iddynt ymweld â hwy. Mwynhaodd pawb y noson a diolchwyd i Mrs Jones gan Mrs Bethanne Williams.

Datganodd y llywydd ein llawenydd o weld Mrs Evans, Lloc, ein llywydd anrhydeddus yn ein plith ar ôl gwaeledd, ond tristwch o golli aelod arall trwy farwolaeth sef Mrs Arfonia Jones.

Rhoddwyd y baned han Mrs Meryl Green a Mrs Nan Humphreys yn cael eu cynorthwyo gan Mrs Beryl Thomas a Mrs Ann Lloyd Thomas Griffith. Diolchwyd iddynt gan y llywydd ac enillwyd y raffl gan Mrs Eryl Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 13 gyda darlith a ffilm ar y 'Gwasnaethau Cymdeithasol' gan Dawn Blackwell yn dechrau am 7.30 ond gofynnir i'r Pwyllgor a fuasent mor garedig a dod erbyn 7.


Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn Iau yn Festri Pontrhythallt, o dan lywyddiaeth Mrs Williams, Bod Fair. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs Lloyd Wiliams, Llys Awen, a chafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs J. Roberts, Elidir View, ar hanes ei ymweliad â Phagagonia. Rhoddwyd y te ganMrs C Owen, Hafan Elan, a Mrs Pritchard, Cwmyglo. Talwyd y diolchiadau gan Mrs C Williams, Hafan Elan. Bydd y cyfarfod nesaf pnawn Iau Hydref 15ed am 2 o'r gloch.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

## LLWYDDIANT AR DRIN GWALLTIAU



LLONGYFARCHIADAU i Linda Morris, Clydfan a Wendy Jones, Gwydryn. Mae'r ddwy ohonynt wedi llwyddo yn eu cyrsiau trin gwallt yng Ngholeg Technegol Llandrillo yn ddiweddar. Mae'r ddwy yn gweithio gyda'i gilydd yn siop drin gwallt 'Elaine' Llanrug. Dymunwn pob llwyddaint iddynt yn y gwaith.



LLONGYFARCHIADAU i Rhian Lloyd, Rhos Ddu, ar ennill tystysgrif 'City and Guilds' mewn trin gwallt o Goleg Technegol Bangor, yn ddiweddr. Mae Rhian yn gweithio yn siop drin gwallt 'Crib Goch', Llanrug. Pob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL PONTRHYTHALLT:
Bydd cyfarfodd cynta'r tymor, nos Fawrth yr 20fed o Hydref, pryd y disgwylir Mr William Owen, Borth y Gest i roi Darlith yn dwyn y teitl 'Cyn Torri'r Llinyn Arian'. Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb i'r cyfarfod yn Festri Pontrhythallt am 7 o'r gloch. Llywydd y Gymdeithas am y Tymor yw Mr Ifor Wiliams, Hafan Elan.

## CYSTADLEUAETH I AELODAU BAND ARIAN LLANRUG



*Ddydd Sadwrn Medi 26ain bu cysatldu brwd yn Neuadd yr Ysgol Gynradd Llanrug o 10.30 y bore hyd 4.30 y pnawn. Uchod mae'r rhai a fu'n fuddugol mewn unawdau, deuawdau a phedwarawdau.*

**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**

**Y Bistro**
**Glandŵr**
**43-45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
*Ffôn: LLANBERIS 871278*
(Danny a Nerys Roberts)
CURIAD CALON CYMRU
CURIAD CALON CYMRU

Dysgwch yrru'r car gydag
**Y.Y.O.**
**YSGOL YRRU OFALUS**
* **Gwasanaeth 7 diwrnod**
* **O ddrws i ddrws**
* **Control Deuol**
**D L**
**PRITCHARD**
**43 Glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**
Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

CYFARFOD Y CHWIORYDD GOFALAETH UNEDIG DEINIOLEN: Nos Iau, Medi 3ydd cynhaliwyd cyfarfod y Chwiorydd Gofalaeth Unedig Deiniolen. Croesawodd y Llywydd bawb yn ôl ar ôl gwyliau mis Awst. Anfonir cydymdeimlad dwys ar eu profedigaeth â theulu y diweddar Mrs Martha Powell. Estynnir hefyd gyfarchion cynnes oddi wrthym fel chwiorydd at bawb sydd yn wael eu hiechyd yn eu cartrefi. Blin iawn yw clywed fod Miss Kathleen Jones, Prenteg wedi ei galw'n ôl i ysbyty Gwynedd, gobeithir iddi gael gwellhad buan. Hefyd drwg oedd gennym glywed fod Mrs Margaret Morris, Rhydfadog wedi bod yn ysbyty Gwynedd ar ôl damwain yn ei chartref. Mae hi erbyn hyn ym Mhlas Pengwaith, Llanberis a dymunir pob adferiad iechyd iddi hithau.

Ar Fedi 30ain bydd y chwiorydd yn mynd am ddiwrnod i Sasiwn Chwiorydd Arfon a gynhelir yng Nghapel Engedi, Caernarfon. Disgwylir i areithio yno, yn y prynhawn Awel Irene ac yn yr hwyr Miss Anna Jane Evans.

Fe gynhelir Encil yn y Bala ar ddydd Mawrth Hydref 13eg. Os oes unrhyw rai o'r chwiorydd yn dymuno mynd, a fyddwch cystal a rhoi eich enwau i Mrs Miriam Lewis, Llys Myfyr, cyn gynted â phosibl.

Ar nos Wener Hydref 2il fe gynhelir Noson Goffi, yr elw at Apêl y Sahel. Fel y gwyddoch eioes mae'r Parchedig Trefor Lewis wedi gwenud taith gerdded o nifer o filltioredd i godi arian at Apl y Sahel, a diolchir iddo am ei ymdrech bersonol. Gofynnir yn garedig i chwi am eich cefnogaeth tuag at y noson goffi, er mwyn yr achos da hwn.

Rhoddwyd te am y mis hwn gan Mrs Helen Wynne Jones a diolchwyd iddi. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau Hydref 1af yn Festri Disgwylfa. Estynnir croeso cynnes i chwiorydd y dair Eglwys i ymuno â ni.

CLWB ELIDIR: Ail-ddechreuwyd y tymor, pnawn Mawrth, Medi'r 15ed gyda the ardderchog wedi ei roddi a'i baratoi gan Aelodau Sefydliad y Merched Cangen Deiniolen. Ar ran y Clwb diolchwyd yn gynnes iddynt gan Mrs Miriam Lewis, Llywydd y Clwb. Derbyniwyd y diolchiadau gan Mrs Eirlys Williams, Is-lwyydd y Sefydliad. Enillwyd y raffl gan Mrs Nancy Rowlands, hwn hefyd yn rhodd gan y Sefydliad. Mynegwyd ein cydymdeimlad â theulu y diweddar Mrs Martha Powell, a fu yn aelod ffyddlon am flynyddoedd ac â Mrs A.M. Morris ar farwolaeth sydyn ei brawd yng nghyfraith ym Mirmingham. Balch oeddym o groesawu yn ôl ar ôl gwaeledd, Mrs Mary Hughes, Mrs Beti Hughes, Mrs Nancy Rowlands a Mrs E. Griffith, Miss K Jones. Dymunwyd yn dda i Mrs Katie Lewis a Mrs M. Morris oedd yn Ysbyty Gwynedd ac â Mrs M. Thomas oedd yn cwyno yn ei chartref.

Dymunwn fel clwb ddiolch o galon i Brifathro, Staff a Phlant Ysgol Gwaen Gynfi am eu rhodd inni eto y flwyddyn yma.

PLAID CYMRU – CLWB CANT: Mis Mehefin – £10 Mrs Kate Griffith, Arwelfa, Dinorwig; £8.50 Mrs Gwen Griffith, Fron. Mis Gorffennaf – £10 Mr Alwyn Owen, 9 Tai Glandwr; £8.50 Mrs Mary Hughes, 26 Rhydfadog; Mis Awst – £10 Mrs Nan Owen, 27 Rhydfadog; £8.50 Miss Jean Parc Jones, Blaen Cae.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fedi 7ed o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd y llywydd y wraig wadd sef Mrs Harding, Penisarwaun. Cawsom noson ddifyr iawn gyda Mrs Harding yn dangos sut i wenud bwydydd iach. Diolchwyd i Mrs Harding gan Mrs Rota Parry Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Nancy Rowlands a Miss Beti Williams. Enillywd y raffl gan Mrs Marian Williams. Bydd y Cyfarfod nesaf ar Hydref 3ydd pan y bydd Mrs Janet Hughes o Debenhams yn trafod coluro.

MERCHED Y WAWR: Agorwyd Tymor Merched y Wawr Nos Lun Medi 21ain. Ein llywydd newydd Mrs Miriam Lewis oedd yn y gadair. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs G. Pritchard, Lle Caradog a Mrs Buddug Jones, Stryd Newydd. Darllenwyd Cylch lythyr yn gofyn am gefnogaeth i gais M.Y.W. Cangen Bethesda i achos Cancr y Fron, a'r pwysigrwydd o gael triniaeth ddigon buan. Bydd cyfle i'r aelodau fyned yno, erfynnir ar i bawb ysgrifennu llythyr at Edwina Curry. (Manylion gan y Llywydd neu'r ysgrifennydd y Gangen Leol o Ferched y Wawr).

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Y Parch Trefor Lewis gyda Mrs Miriam Lewis yn ei gynorthwyo. Cawsom eu hanes ar Daith yn Jerwalselm ar lafar gan y Parch Trefor Lewis gyda Mrs Lewis yn trin y peiriant lluniau. Dywedwyd fel y profwyd gwirioneddau sydd yn y Beibl gan archaelogewyr ac yn y blaen. Diolchwyd am noson hynod o



*Cyflwyno siec i Glwb Snwcer Deiniolen gan Gyngor Chwaraeon Cymru.*

ddifyr gan Mrs J Eirlys Wiliams, ac hefyd i Mrs Mary Morris a Mrs B. Wyn Davies gwesteion y te.

Y Cyfarfod nesaf fydd Hydref 21 (nos Fawrth) gyda Mr Gareth Morgan, 'Curiad Calon Cymru'. Mis Rhagfyr yr 21, Cawl a Chân yn y Ganolfan. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfod hwyr a chroesawn unrhyw aelod newydd bob amser. Mae rhaglen ddiddorol yn eich haros.

DIOLCH: Dymuna Mrs Eileen Chase, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn ,a'r anrhegion a'r blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Hefyd diolch i feddygon a gweinyddesau yn ward Gwynedd, hefyd y Parch Trefor Lewis. Diolch o waelod calon i chwi oll.

Dymuna John Maldwyn Jones, Rhês Marian, ddiolch yn fawr iawn i drigolion Bro'r Eco am eu caredigrwydd tuag ato tra yn yr ysbyty yn ddiweddar.

SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Awst: 1. £20 H. Hughes, 4 Tai Gwyrfai, Deiniolen; 2. £15 T.A. Parry, Bro Daniel, Deiniolen; 3. £10 Sara Woods, Fron Heulog, Dinorwig.

Y RAS 10K: Cynhaliwyd ras 10K gyntaf yn Neiniolen ar Fedi 10 ar nos Iau.

Trefnwyd y ras gan Len Jones rheolwr Clwb Codi Pwysau Pŵer Dinorwig i gasglu arian at adnoddau newydd i'r Clwb.

Casglwyd £335, ond bu rhaid talu am hysbysebu a medalau a tlysau i'r cystadleuwyr allan o'r arian hyn a'r cyfanswm ar y diwedd oedd £123.50.

Mae'r Clwb a Len Jones eisiau diolch i'r cystadeluwyr a phawb a ddaeth i wylio'r ras , hefyd diolch arbennig i'r gwahanol fusnesau a roddodd gymorth ariannol tuag at y medalau a'r tlysau sef: Jones & Jones, Adeiladwyr; Thomas & Jones, Gwydrau; Brymer Parry, Cigydd; Bull Inn; Swyddfa Bost Deiniolen; Siop-y-Gornel; Skipiau Arfon, Caernarfon; Sling (Setiau Ffilm); Siop Chips, Gwyn Oliver. Diolch hefyd am y gwyobrwyon a gafwyd gan, Owie a Beryl, Siop James; Sian Gwalltiau; Jones & Worth; Caernarfon Sports; Rita & Edgar, Becws Deiniolen, Gwilym Llefrith.

Canlyniadau'r Ras oedd:

**Rhiant a Phlentyn**: 1. Dewi a Gwydion Tomos, Rhostryfan; 2. Rita ac Amy Bright, Bangor; Gareth a Gwen Jones, Rhiwlas. **Par Lleol cyntaf**: Anwen a Sian Thomas. **Dan 12 – Genethod**: 1. Sian Griffith, Deiniolen 11.42 sec (1af lleol). 2. Nerys Humphries, Llandegfan 12.03 sec; 3. Gwenllian Tomos, Rhostryfan 12.05 sec. **Dan 12 – Bechgyn**: Jason Bayliss, LLanberis 8.51 sec; 2. Hugh O'Donnell, Llanberis 9.13 sec; 3. Eilir Williams, Deiniolen 9.40 sec (af lleol).**12 – 17 Genethod**: 1. Julie Bayliss 28.41; **12–17 bechgyn**: 1. Colin M Jones 18.30 Pontrug; 2. Dylan Cole Jones 18.40 Deiniolen (1af lleol); 3. Eifion Griffiths 21.05 Llanberis. **Dros 17–35 Merched**: 1. Mair Tomos 42.05 Rhostryfan; 2. Liz Roberts 53.57 Caernarfon; 3. Paula Linton 53.57 Bathel. **Dros 17–35 Dynion**: 1. Tegid Roberts 31.51 Nebo; 2. Arwel Lewis 32.53 Tal-y-bont; 3. Gwynfor Owen 33.40 Llanrug. **1af Lleol;** Gari W. Williams (Deiniolen)
**Dros 35 merched**: 1. Jill Hallard 42.33 Abergele; 2. Sylvia M Arnold 46.40 Abergele; 3. Wendy Hill 47.03 Bangor. **Dros 40 Dynion**: 1. Barry J. Richardson 35.37 Pentraeth; 2. Peter Roberts 36.55 Caernarfon; 3 Nigel Williasm Fisher 37.03 Rhiwlas. **1af Lleol**: William Orwig Williams (Golygydd Eco, Deiniolen) a gerddodd y cwrs gyda'i gi.

## YSGOL GANOL DEINIOLEN 1935



**Rhes Gefn:** *?, John Idris Owen, Bobbie Williams, Carys Jones, Beryl Noel Williams, Mary Evans, Betty Wyn Parry, Myra Parry, Nancy Williams, Nancy Chepston, Rhiannon Roberts, Meriona Price.*
**Rhes ganol:** *Betty Hughes, Megan Parry, Nellie Parry, Gracie Griffiths, Charlotte Fellows, Eileen Thomas, Lily Maud Davies.*
**Rhes flaen:** *W. Dennis Jones, Hugh D. Jones, Gwilym Owen Jones, Gerald W.J. Jones? Dennis W. Roberts, Harry Ifor Wiliams, Gwilym Green, Gwilym Lewis, Alun Wyn Evans, Owen Jones, Henry Roberts.*
*A oes rhywun yn gwybod pwy yw y bachgen cyntaf yn y rhes gefn?*


TACSIS
AMBERLINE
BETHEL
UNRHYW AMSER • UNRHYW BELLTER
Ffôn:(93)670555

CRIB COCH
Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn Caernarfon 76772
TRIN GWALLT I BAWB
O'R TEULU GAN JEN
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

# LLANBERIS

**Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir**

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â theulu Mrs Katie Morris, Stryd Warden yn eu profedigaeth o golli chwaer.

Cydymdeimlwn â theulu Mrs Lee, Plas Trion Bungalows yn eu profedigaeth.

PRIODI: Dymuniadau da i Ian (Ianto) Jones Dol Peris Bungalows ar achlysur ei briodas Medi 5ed.

Hefyd Nicky a Neil, Llain Wen ar achlysur eu priodas hwythau yn Eglwsys St Padarn ar Medi 19ed.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r rhai canlynol sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar: Nia Griffiths, Dol Elidir; Huw Williams, Dol Elidir; Twm Morris, Maes Padarn; Ian Harding, Coed; Mr Bob Owen, Coed Mawr.

DYMUNIADAU DA: i Owain, Sam a'r plant sydd wedi dod yn ôl i Llanberis i yw. Yr oedd Owain yn byw yn Llwyn Piod cyn iddo fynd i Lerpwl i weithio ar ôl gadael yr ysgol.

DIOLCH: Dymunai Wendy, 1 Stryd y Dŵr, ddiolch i'w theulu, ffrndiau, a'i chymdogion, am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn 21ain.

Dymuna teulu y diweddar Mrs Katie Morris, Hyfrydle, Warden Street ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddaangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb annwyl.

Dymunwn bob llwyddiant i Judith Foulkes, Dol Elidir ar gael ei phenodi yn manageress ar siop y Co-op ym Methesda.

Dymunai Mrs Williams a Staff Co-op Llanebris bob dymuniad da i Judith yn ei swydd newydd ym Methesda. Mae yn ddrwg ganddynt ei cholli yn Llanebris. Hefyd maent yn dymuno'n dda i Melanie Sellars yn ei gwaith newydd yn siop y fferyllydd yn Llanberis. Gadawodd Melanie ei waith yn y Co-op o achos cwtogi staff. Dydd Gwener Medi 18, aeth Mrs Williams a'r staff am fwyd i Lake View. Fel arwydd o'u gwerthfawrogiad am eu gwasnaeth tra yn gweithio yn y Co-op yn Llanberis cyflwynodd Mrs Williams anrheg i'r ddwy oddi wrth y staff i gyd.

I Dylan Roberts, Maes Padarn ar ein ben blwydd yn ddeunww oed hefyd pob lwc i ti ar ymuno â'r fyddin yn ddiweddar.

I Maxine Roberts ar ei phenblwydd yn un ar hugain ar Hydref 1af.

DIOLCH: Dymunai Helen ac Elwyn ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag at eu mab tra y bu yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Nai yw i Mr a Mrs Wilbert Davies, Rock Terrace.

Dymunai Melanie Sellars ddiolch o galon i Mrs Williams a'r staff am bob peth tra bu yn gweithio yn y Co-op. Dymunai bob llwyddiant i Judith yn ei gwaith newydd.

DYMUNIADAU DA: i Michael Thomas a Jini yn eu cartref newydd yn Fflint. Mae Michael wedi llwyddo mewn dau arholiad i fynd i mewn i'r heddlu yn Fflint ac yn eistedd arholiad terfynol yn fuan. Mab Joan Thomas, Dol Elidir yw Michael.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Miss Jennie Jones, Stryd y Ffynnon yn ei phrofedigaeth o golli brawd.

Cydymdeimlwn â theulu Tŷ Bwyta yn eu profedigaeth.

YMDDEOLIAD: Dymunwn yn dda i Mr G Roberts, Dol Elidir sydd wedi ymddeol er diwedd y mis yma. Yr oedd Mr Roberts yn gweithio gyda'r Bwrdd Dŵr.

GENEDIGAETH: Dymunwn yn dda i Daryl ac Eirlys Siop Goed ar enedigaeth eu merch fach.

I Lilian (Morgan gynt) ar enedigaeth tri o hogiau. Llongyfarchiadau Nain sef Mrs Mary Morgan 'New Bodeilian.'

CLWB METHEDIG ERYRI: Mae aelodau y mudiad yn brysur yn gwenud eu gwaith crefft. Drwg oedd ganddynt glywed fod Mr Ivor Evans, Mr Gruffudd Owen a Mrs Katie Williams , Derwen Deg yn wael. Maent yn dymuno gwellhad buan i'r aelodau i gyd sydd yn cwyno.

Croesawyd Mrs Alice Roberts o Lanrug fel aelod newydd.

Dydd Gwener Medi 25 mae Bingo yn Gwynedd Restaurant ar elw yn mynd at Glwb Methedig Eryri. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Thomas Llanrug a Mrs Laura Davies, a Miss Megan Price a'r enillwyr Mrs G Thomas, Penisarwaun, Mrs Nancy Hughes a Miss Megan Price o Lanberis.

DYMUNIADAU DA: Dymunwn pob llywddiant i Ken ac Ann Stryd Goodman yn eu menter newydd. Maent wedi agor Siop y Glorian yn Stryd Goodman yn gwerthu nwyddau rhydd fel blawd, siwgwr, grawnfwyd, ffrwythau sych, da da ac amrywiaeth o gig. Ewch draw am dro i'w gweld. Pob lwc Ken ac Ann.

## HEN 'DARANS'



*Dyma lun tim pêl droed Llanberis rywdro yn y gorffennol. Diolch i Keith Roberts, Dol Elidir am ei anfon. Mae llun tad Keith ynddo.*

*Tybed a ŵyr rhywun ym mha flwyddyn y tynnwyd y llun ac enwau y chwaraewyr. Mae'n siwr fod wyrion rhai ohonynt yn chwarae i dîm presenol Llanberis. Os ydych yn adnabod unrhyw chwaraewr cysylltwch â'r gohebydd os gwelwch yndda.*

## DATHLU PRIODAS



*Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Owen, 4 Warden Street, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.*


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



**Perchennog: E.P. Hughes**

**MODURDY DOLYDD**

**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

**E.W.Pritchard**

**CENTRAL GARAGE**

**Llanberis**

**Ffôn: 870202 a 870272**

TREFNWYR ANGLADDAU

CEIR AR GYFER PRIODASAU

GWASANAETH TACSI

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON**

LLANRUG

**(ERIC MORRIS)**

**Ffôn: Caernarfon 5175**

# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CYFARFOD CYHOEDDUS APÊL YR URDD: Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus, Nos Iau, Medi 17 am 7.00 p.m. yn ysgol Tan y Coed i sefydlu Pwyllgor ar gyfer targed ariannol y pentref tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Y targed yw £1,500. Anerchwyd y cyfarfod gan Mr Alun Roberts a'r Dr. Emrys Price Jones, Is-gadeiryddion. Etholwyd pawb oedd yn bresennol yn aelodau o'r pwyllgor gyda Dafydd Ifans yn gadeirydd, Nant Roberts ac Amranwen Lynch yn Ysgrifennydd a thrysorydd a Delyth Williams, Carolyn Roberts, Ann Jones a Margaret Williams i gynrychioli'r Pentref ar y Pwyllgor Cyllid.

CLWB YR HEULWEN: Medi 15ed cafwyd sgwrs a phaned. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Rees Thomas, Mrs Julia Turnes, Mrs Sandy Evans, Mr Evan Hughes, Mr Owen Thomas, Mrs Jones, Cae Corniog, Gwyneth Owen, Dylan Price Williams a Dafydd Owen ac i bawb sy'n sâl yn y pentref. Dymunwyd yn dda i Anwen ac Aled ar eu priodas ac i Alison Jones ar ei dyweddiad. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mrs M. Adlan, a Mrs J. May Jones ar golli ei brawd yng nghyfraith o Ddinorwig. Rhoddwyd y te gan Mrs Nel Williams a Mrs Mary Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs G. Jones a diolchwyd am y te gan Mrs N. Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf Hydref 20ef am 1.30 p.m. Disgwylir Mr Eifion Harding, Winllan i'n difyrru. Croeso cynnes i bawb.

CLWB CANT: Nos Sadwrn, Awst 29ain cafwyd Noson Gymdeithasol hwyliog dros ben yng ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am gymryd yr enwau a threfnu'r bws. Mwynhawyd y disgo gan bawb o bob oedran, cadeirwyd dau fardd am linell goll o safon aruchel yn ôl y Meuryn Arwel Pant Hywel, a rhyfeddwyd at nwyfusrwydd merched y ddawns flodau. Diolch i Phyllis am ofalu am nifer o eitemau 'chirades', ac fel pob noson gymdeithasol diweddwyd gyda môr o ganu. Tynnwyd y Raffl Fawr, a'r enillwyr oedd: 1. Eurwyn Jones, Cae Corniog; 2. Roger Bishop, Dinas Powys, De Morgannwg; 3. Maureen o Ddeiniolen. Enillwyr Clwb Cant mis Awst oedd: 1. Owen Thomas, Tai Newyddion, Penisarwaun; 2. Sylvia Jones, Llanrug; 3. Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun.

Gweithgaredd Medi – "Cwis a Thatws Trwy'u Crwyn", yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 p.m. Trefnir y cwestiynau gan Glyn Evans. Gweithgaredd Hydref – "Noson Calangaeaf" Beirniad Mrs Heulwen Evans, Bryn Eglwys.

CLWB Y MERCHED: Nos,Fawrth, Medi 22ain am 7.00 p.m. cafwyd hanes teithiau Côr y Penrhyn i'r Almaen a Chanada gan Dafydd Ifans. Rhoddwyd y te gan Margaret Williams ac Ann Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Nel Wilimas. Mis Hyfref ceir sgwrs a sleidiau gan y Parchedig a Mrs Trefor Lewis ar Jerwsalem.



*Plant Ieuengaf Ysgol Tan y Coed*

YSGOL TAN Y COED: Ar ddechrau blwyddyn ysgol arall mae'n braf cael croesawu wynebau newydd sbon i'n plith. Wynebau ein dysgwyr ieuengaf ydynt, sef, Mathew, Alaw, Arddun, Erin, Dion, Nia, Rowan a Steven. Hefyd fe ddaeth Mrs Olwen Ingham, hithau'n ifanc iawn ei hysbryd i'n helpu fel Gweinyddes Feithrin. Hyderwn y bydd pawb ohonynt yn hapus iawn yn ein plith.

YSGOL SUL BOSRA: Fe ail gychwynodd yr Ysgol Sul, Medi 6ed. Croesawyd Erin Eifion i'n plith. P'nawn Sul, Hydref 4ydd, bydd y plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd, yng nghapel Cefn Waun, Deiniolen. Gobeithir trefnu bws.

EGLWYS SANTES HELEN: Bydd plant yr ysgol Sul yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yn Neiniolen ar Hydref 4ydd. Cynhelir y Gymanfa yng Nghapel Libanus – arweinydd Lowri Prys Roberts.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Alun Mowll ar ddathlu ei benblwydd yn 21ain yn ddiweddar.

URDD ADRAN BENTREF PENISARWAUN: Mewn pwyllgor o'r Urdd Nos Fercher Medi 23, dewiswyd y rhai canlynol yn swyddogion am 1987–88: Arweinydd – Mrs Delyth Williams; Is -arweinydd – Mrs Myfi Jones; Ysgrifennydd – Mrs Elizabeth Jones; Is-ysgrifennydd – Mrs Ann Paterson; Trysorydd – Mrs Elinor Williams; Is-drysorydd – Mrs Ellen Lewis; ynghyd â Mrs Carolyn Roberts, Mrs Nant Roberts, Mrs Ann Ifans, Mrs Janice Jones, Mr Dafydd Evans a Mr Tony Elliot yn aelodau o'r Pwyllgor.

Cynhelir cyfarfod cyntaf yr Urdd Nos Fawrth Hydref 27ain yn Ysgol Tan-y-Coed i ddechrau am 6 o'r gloch, pryd y bydd cyfle i'r plant ymaelodi am £1.30 yr un. Mae'n ofynnol i bob plentyn fod yn 6 oed erbyn Medi 1af er mwyn cael ymaelodi. Fe fydd creision ac oren ar werth ymhob cyfarfod am 20c.

Buasai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael cymorth gan unrhyw un o'r rhieni a charedigion i'w cynorthwyo.

Llongyfarchiadau i'r parti dawnsio ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Caernarfon dydd Sadwrn Medi 26, dan hyfforddiant Mrs Bethan Williams a Mrs Carys Jones yn cyfeilio.

CAPEL BOSRA: Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant fore Sul, Hydref 18 am 10.00 a.m. Croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Pat Larsen, a'r teulu oll o golli ei chwaer.

DYMUNIADAU DA: Pob dymuniad da a phob llwyddiant i Rheon Larsen a Sharon Owen ar ddechrau eu gyrfa yn y Coleg, yn Aberystwyth a Bangor.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CASNEWYDD 1988

**Cystadleuaeth i holl ddarllenwyr Papurau Bro Cymru**

**GWOBR: Un tocyn i unrhyw un o weithgareddau swyddogol Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.**

1. Beth yw'r enw ar Bwyllgor Ieuenctid Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd?
2. Ym mha le mae Maes Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd?
3. Ym mha flwyddyn fu'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd ddiwethaf?
4. Pwy gyflwynodd y Corn Hirlas presennol i'r Eisteddfod?
5. Beth yw enw Gorseddol Archdderwydd newydd Cymru?

Atebion erbyn Dydd Llun, 9 Tachwedd 1987 i:
Cwis Papurau Bro, Swyddfa'r Eisteddfod, Moderator Wharf, Rhodfa'r Brenin, Casnewydd, Gwent, NP9 1EX

Enw: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

..............................

..............................

Rhif ffôn: ..............................


Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag
**ERIC JONES**
**17 BRYN TIRION**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: LLANBERIS 872421**




**TACSIS WEBB**
**22 BRYNTIRION** **PENISARWAUN**
Ffôn: Llanberis **870145**
**Gwasanaeth 24 awr – pell ac agos**
**Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd**
**Gwaith Contract**

Y Foelas
*CARTREF YR HENOED*
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
**Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon**
**(0286) 4652**

# GALW DDOE I GOF

*Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch Mrs Mem Pritchard.*

**Gaeaf 1912, ac amser caled iawn ar y tlodion yng ngogledd Cymru.**

**Roeddan ni yn byw ym Mhentir ac yn ddifrifol o dlawd. Fy nhad wedi gorfod dwad o'r chwarel o achos ei iechyd. Yn yr haf roedd yn cael gwaith yn y caeau gwair, ond yn y gaeaf, doedd yna ddim byd.**

Y diwrnod yma ydw i eisiau sôn amdano, roedd fy nhad yn ei wely yn reit wael, doedd dim tamaid o fwyd yn y tŷ, a dim glo na choed i wneud tewyn o dân. Roedd yn bwrw yn drwm iawn trwy'r dydd a golwg ddigalon ar bob man. Mam druan wedi trio llnau y grât yn lan a honno yn llwyd ac yn damp ac yn oer, a wedi golchi y llawr llechi a hwnnw yn sychu dim.

Fi oedd yr hyna' o'r pum plentyn adra achos mi roedd fy chwaer hynaf yn aros yn tŷ nain ym Methel, a'r diwrnod difrifol yma roeddan ni gyd bron â llwgu. Mi fyddai i yn siwr rwan bod mam wedi mynd i rhyw gongol a gweddio, achos mi oedd hi yn crio yn arw.

Yn sydyn dyma gar a cheffyl yn aros tu allan i'r tŷ, a dyma mam yn rhoi rhywbeth dros ei phen, ac yn mynd allan ac yn dweud rhywbeth wrth y gyrrwr. Fan E.B. Jones o Fangor oedd hi, a finna yn edrych drwy'r ffenest ar y glaw trwm yn sboncio ar gefn y ceffyl nes oedd stem yn codi.

Rhoddodd y dyn dorth i mam, a dyma hi yn dwad i'r tŷ a'r plant yn mynd i eistedd at y bwrdd. Petha bach, mi oeddan nhw yn llwyd ac yn oer. Mi'r oedd y droth yn ffres iawn, ac roedd mam yn dal i grio wrth dorri'r dorth a honno yn torri yn dalpia am ei bod hi yn rhy ffres.

"Wel" medda mam, "Be ga i hefo hi i chi?", ac ar hynny dyma gnoc ar y drws. Y dyn gwerthu penwaig o Fangor oedd yna, a dyma fo yn dweud wrth mam "Ylwch toes gen i ddim ond y ddau benog yma, ac mae arna i isio mynd adra am ei bod hi mor wlyb". Mam yn dweud nad oedd ganddi ddim dima i brynu y penog, ond dyma fo yn rhoi y ddau bysgodyn iddi a dweud, "Mae hi yn iawn, cewch dalu eto."

Mam yn edrych o'i cwmpas yn wyllt ac yn tynnu drws y cwpwrdd llestri ac yn ei falu i wenud tân i ffrio y ddau benog. Mi'r ydw i'n cofio gweld y bwyd yn mynd o'r golwg yn sydyn iawn, a finnau yn meddwl yn sobor be fuasa ni yn wneud wedyn. Chafodd mam na nhad ddim tamaid, a tamaid bach iawn ges i am mai fi oedd yr hyna ac yn deall fel yr oedd hi arna ni.

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.**

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am mis Awst: 1. £40 Mr Iolo Huws-Roberts, Bodrida; 2il £25 Mr R Johnstone, Tŷ Gwyn; 3. £10 Mr I Bracegirdle, 23 Bro Waun.

LLONGYFARCHIADAU i Huw Ynyr, Tan y Fron ar ei benblwydd yn 18 oed. Llongyfarchion arbennig iddo ar gael ei ddewis yn Brif-ddisgybl Ysgol Syr Huw Owen am eleni, ac i Llion Iwan, Pen-y-Berth, ar ei ddewis yn Ddirpwwy brif-ddisgybl.

I Mr a Mrs David Jones, Lynfod, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch, Gwawr, i Glenda a'i gŵr Eryl yn Yr Wyddgrug.

I Eirian, 19 Stryd Tŷ Hen ar ei phriodas ag Alun o Gaernafon.

YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan iawn i Mrs E.C. Hughes, Bro Waun, Mr Huw Williams, Tref Eiliam, Mr R.L. Parry, Rhes Eilian, Mrs Luned Jones, Lynfod a Mrs M Griffith, Tref Eilian.

Daeth Mr Joseph Jones, Gadda, a Mrs Alun Williams, Bro Waun, adref o'r ysbyty a gobeithiwn eu bod yn gwella. Cofion hefyd at Mr Idris Humphreys, Awel gynt, sydd wedi ymgartrefu yng nghartref yr henoed yn Llanrug, heb anghofio Miss C.E. Williams, Is Eilian, a Mrs Jones, Fron Hyfryd, sydd yno ers tro bellach.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr Clwb 100 am fis Awst: 1. John Huws Roberts, Pant Teg; 2. Ifanwy Rhisiart, Bod Afon; 3. Mrs Hughes, Gwastadfaes.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod fis Medi o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun gyda Mrs Pat Parry yn llywyddu. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a'r llythyr misol a thrafodwyd y materion perthnasol. Gŵyl Flodau Castell Penrhyn Medi, 8,9 a'r 10. Noson Gaws a Gwin yng Ngwesty'r Royal yng Ngahernarfon Medi 30 am 7.30. Mae Mrs Margaret Loyd Jones, Ysgrifenyddes y Sir am ymddeol o'r Swydd Llongyfarchwyd â Nicholsas, mab Mrs Meira Ham ar ei lwyddiant gyda'i arholiadau. Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni dau o aelodau o Swyddfa Hyffroddiant Hebog. Gwasanaeth yw hwn o dan 'Manpower Services Commission' i ddatblygu Rhaglenni Cymunedol yng Ngwynedd. Un o rhain yw 'Homesafe' sef cynllun i helpu gyda diogelwch yn y cartref i'r henoed a'r anabl. Diolchwyd iddynt gan Mrs Pat Parry. Enillodd Mrs Duncan y raffl a roddwyd gan Mrs Catherine Jones.

CLWB GWYRFAI: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor pnawn Iau Hydref 8, yn y Ganolfan. Hyderir am gynulliad da o aelodau hen a newydd, gan y byddwn yn siwr o awr ddifyr yng nghwmni Mr Iolo Huws-Roberts, Bodrida.

Bellach aeth deufis heibio ers pan fu farw Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun. Yn ddiameu cawsom golled fawr yn yr ardal hon o golli chwaer mor annwyl, dawel a bonheddig ym mhob ffordd. Mam dyner Alys a Gwyneth a nain dda i'r plant. Yn nosbarth yr Ysgol Sul y deuthum i'w hadnabod yn iawn. Dosbarth o rhyw 5–7 ohonom. Aelod ffyddlon iawn i'r Ysgol Sul, a'r moddion yn Nghroes y Waun oedd. Mawr yw ein hiraeth amdani. Mr R.D. Roberts oedd ein hathro am flynydboedd nes iddo ymadael â'r ardal wedyn i'w ddilyn fe ddaeth Mr Morris Lewis yn athro arnom. Diolch yn fawr i'r ddau ohonynt.
K.R.

# CWM-Y-GLO

**Gohebyd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)**

CAPEL Y TABERNACL: Nos Wener, Medi 11eg cafwyd noson goffi lwyddiannus dros ben yn y Ganolfan er mwyn codi arian tuag at dalu costau'r atgyweirio. Er ei bod ynnoson mor aeafol daeth nifer dda iawn o bobl a phlant yno i gefnogi'r ymdrech. Enillwyd y bocs groseri gan Mrs Jean Hughes, Bryn Gro; y fasged ffrwythau gan Mrs Evans, Gwylfa; y tyweli gan Mr Selwyn Jones, Caernarfon; potel sieri gan Mrs Roberts, Penrallt; poteli Babycham gan Mrs Fraser Jones, Y Felinheli; a Mrs Jones, Pantafon yn ennill set popty a gorchudd Tebot. Ar y noson cafwyd raffl arall lle'r enillodd; Mr Sam Jones, Bron Eryri – Bag Adidas; Mrs Dilys Jones, Bwlch – lliain bwrdd; Mr Lloyd Owen, Maes Gerddi – lliain bwrdd; Terry, Bryn – bocs o sioceld, Mrs G. Chick – bocs o ffrwythau a Mr Idris Wyn Riberts – Y Prifathro – set glanhau.

Diolch o galon i bawb a roddodd yr anrhegion ar gyfer y rafflau ac am y rhoddion a'r cyfraniadau o bob math. Ein diolchiadau cywiraf hefyd i'r gymdogaeth am ein cefnogi ac i bawb a wnaeth y noson yn gymaint llwyddiant.

LLONGYFARCHIADAU i Sue a Huw, Dôl Afon, ar enedigaeth eu merch fach, Leanne, chwaer fach i Daniel a Rachel.

CLWB POBOL Y CWM: Dydd Iau, Medi 10fed croesawodd y Llywydd Mr Llew Hughes yr aelodau yng nghyfarfod cyntaf tymor y gaeaf. Diolchodd i un o'r aelodau, sef Mr Hugh Pritchard, Bryn Gwynedd, am ei sgwrs diddorol. Dymunwyd adferiad buan i iechyd Mrs E. Williams, Pant-afon a Mrs E. Jones, Seiont House. Ail-etholwyd y swyddogion presennol i weithredu am dymor ychwanegol, sef y Llywydd Mr Llew Hughes; Ysgrifennyddes Mrs H.M. Roberts; Trysoryddes Miss E. Hughes. Trefnwyd y manylion gogyfer y wibdaith i Flaenau Ffestiniog, ar y trên bach o Borthmadog, dydd Iau, Medi 24ain. Mr a Mrs R. Hughes, Bryn Gro roddodd y te a Mrs E. Hughes, Hyfrydle y raffl a enillwyd gan Mrs G. Chick, Rhos y Ffin. Hoffwn wneud apêl i ardalwyr hŷn ac ymddeolwyr i ymuno a'r clwb. Dyma gyfle i wrando ar sgyrsiau difyr ac ymddiddan am amrywiol ddiddordebau, ac wrth gwrs paned arferol, bydd croeso yn eich aros.

## BEICWYR MEDRUS CWM



*Plant Safon 3 Ysgol Cwmyglo a gafodd Dystysgrif Beicwyr Medrus Cyngor Sir Gwynedd Eleni.*

# NANT PERIS

**Gohebydd; Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.**

GWELLA: Da yw gweld fod Alan Pritchard, Llys Awel, yn gwella ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd, a dymunwn yn dda iddo tra bydd mewn ysbyty yn Lerpwl. Brisia wella Alan.

DIOLCH: Hoffai Alan Pritchard ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd iddo tra yn yr ysbyty.

PENBLWYDD: Gobeithio i Mr Gruffydd Closs Williams, Tan-y Bryn gael penblwydd hapus yn 84 yn ystod y mis.


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**AR AGOR**
**9-7pm**
**9-5pm Sadwrn**
**AR GAU**
**SUL, MERCHER.**



**DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL**
**DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'**
**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**
**GWAITH CONTRACT**
**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

**Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:**
**WAUNFAWR 291**

**CANOLFAN IAITH GENEDLAETHOL NANT GWRTHEYRN**
Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd LL53 6PA. Llithfaen (075 885) 334.

## Anrhegion Unigryw ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

**Am y tro cyntaf erioed yn hanes Canolfan Iaith Genedlaethol Nant Gwrtheyrn, argraffwyd nifer fechan o gardiau Nadolig a Chalendrau Cymraeg.**

**Bu gwerthiant mawr ar yr eitemau hyn yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Yn wir – bu'r gwerthiant mor llwyddiannus nes gorfodi'r Ganolfan i ail-argraffu'r cardiau Nadolig. Ers yr Eisteddfod mae'r cyflenwad hwnnw hefyd wedi ei werthu ac oherwydd y galw mawr amdanynt mae'r trydydd argraffiad ar y gweill.**

**Un math o gerdyn sydd ar gael a hwnnw yn ddarlun lliw llawn o bentref Nant Gwrtheyrn o dan haen ysgafn o eira. Tu mewn i'r cerdyn ceir y geiriau 'Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda'.**

**Gwerthir y cardiau hyn er budd y Ganolfan Iaith Genedlaethol.**

**Pris – 20c yr un neu 6 am £1.00.**

**Yr un mor boblogaidd yw'r Calendr Cymraeg sy'n cynnwys chwech o luniau du a gwyn yn dangos bywyd y Nant dros ganrif yn ôl ac hefyd yn fwy diweddar. Darparwyd y lluniau gan Aled Griffith, Lluniau Llŷn ac mae'r Calendrau yn gwerthu am £2.00 yr un.**

**Gellir archebu'r Cardiau Nadolig â'r Calendrau Cymraeg trwy anfon at:**

**Canolfan Iaith Genedlaethol,**
**Nant Gwrtheyrn,**
**Llithfaen,**
**Pwllheli,**
**Gwynedd,**
**LL53 6PA**
**Rhif ffôn: (075 885) 334**
**Codi'r tâl am gludiant post.**

---

**Emyr Jones**
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal Boileri, Gwaith trin pibellau nwy, olew, tanwydd solat.
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513

---

**BRYN**
(B & K Williams)
Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)
Gwneuthurwyr Ffenestri, Drysau, Grisiau neu unrhyw fath o gynnyrch coed. Y coed meddal wedi derbyn triniaeth arbennig i wneud iddynt bara.

---

**OSMOND SHAW**
DEINIOLEN
Gwerthu a thrwsio Teledu Lliw Newydd ac Fel Newydd
GWASANAETH ATEB FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

---

**Aled Jones**
Peiriannydd Gwres Canolog a Phlymio
4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis 871047


---

**IEUAN WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
* Bysus o 12 i 53 sedd
* Teithiau Lleol a Thramor
* Gwaith Contract
* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

---

Mae mwy o ddewis nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA GRIFFITH**
**Y STORFA**
SGWÂR LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 2790
Bwydydd, Llysiau, Diodydd, Gwlân Sirdar, Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos Wener a 9.30 - 12.30 fore Sul
Archebwch dros y ffôn – fe'i danfonwn at eich drws

---



**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232
BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

---

***Wavell Roberts***
**CIGYDD**
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3574
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

---

**W.H. JONES**
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN: LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan ac ati

---

**NEWYDD AGOR!**
**SIOP BAENT**
STORFA TŶ NEWYDD
BRWSHUS . TYRPS
POLIFFILA . BWCEDI
'HARDWARE' AC ATI

---

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**
GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI GWAIR
**E. PUGH**
WELDING & FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

---

**SIOE FFASIYNAU**
Cynhelir Sioe Ffasiynau gan Siop Maxwell's yng Ngwesty Dolbadarn
Nos Iau, Tachwedd 12 am 7.30 p.m.
Pris mynediad £1
yr elw yn mynd tuag at Gronfa Theatr Fach, Gorffwysfa.
Bydd yn bosib archebu bwyd ar y noson.

---

***W.J.GRIFFITH***
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
Gosodwyr Nwy Cofrestedig Corgi
CORGI — GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

# O FRO'R ECO I WLAD YR ADDEWID

## gan Y Parch. Trefor Lewis

**Gadawsom y gwastadedd gan ddilyn y ffordd sy'n ymdroelli drwy'r mynyddoedd i fynydd Jerwsalem. Gynt yr oeddem wedi edrych ar y gwastadeddau a rhyfeddu ar brydferthwch yr anialdir. Rhyfeddod mwy oedd ymdroelli rhwng y bryniau gwynion. Er nad yw'n amlwg iawn y mae tyfiant, ac nid bwyta gwynt y mae'r defaid a'r geifr. Oherwydd y gwres nid yw glaswellt yn aros yn wyrdd yn hir – fe'i sychir yn grimp yn y fan a'r lle. Nid oes raid, felly mynd ati i wneud gwair, y mae'n tyfu o'r ddaear. Does dim angen gras ac amynedd amser cynhaeaf gwair fel yng Nghymru.**

Yma ac acw gwelir llwyni bychain gwyrdd – dyma hoff fwyd y camel. Onid yw rhagluniaeth Duw yn wych? Y mae sawl un wedi cyfeirio at hyn mewn emyn, er enghraifft Dilys Baylis –

**Coffaf amdanat ti, yn creu popeth hardd,**
**Grug ar y mynydd, a rhos yn yr ardd;**
**Lili Wen, ger y lli, helyg ar ddôl.**
**Ysgall a rhedyn gwyrdd, a dyf ar dy ôl.**

Ni chrewyd yr un dim ac ni thyf yr un dim heb bwrpas.

Wedi dringo am beth amser, dechreuodd y ffordd ddisgyn. Pwysodd Haggai fotwm ar banel blaen y bws a llanwyd y bws gan gerddoriaeth a llais canwr o Sais yn sôn am freuddwyd. Yn y freuddwyd gwelai ei hun yn Jerwsalem, Jerwsalem...' ac ar yr un pryd syllu allan drwy'r ffenestr ar adeiladau gwyn Jerwsalem, adfywiodd pawb, yr oeddem o fewn golwg i'r ddinas Sanctaidd neu Ddinas Duw.

Dyma brif ddinas yr unig deyrnas a sefydlodd Duw ymysg dynion, hyd yn hyn; dyma ddinas y proffwydi; dyma ddinas Dafydd. Yma bu Iesu farw, atgyfodi ac esgyn i'r nefoedd. Yma, ar y Pentecost, y disgynnodd yr Ysbryd Glân ar griw o ddilynwyr Iesu i roi genedigaeth i'r Eglwys Gristnogol. Yn Jerwsalem y cynhaliwyd y sasiwn cyntaf pan wynebodd yr Eglwys y creisis cyntaf yn ei hanes. (Gw. Actau 15). Er nad yw Jerwsalem wedi ei bendithio â chyfoeth materol dewisodd Duw y rhan yma o'r byd yn gadarnle undduwiaeth. O'r byniau moel cyhoeddodd athronwyr, proffwydi a'r Crist, reolau a deddfau cariad moesol a brawdol. Oddi yma yr ymledodd fflamau ffyddiau i sefydlu teyrniasiad cyfiawnder a chredoau crefyddol ymhlith pobl wedu eu dallu gan oferedd ac eilunaddoliaeth.

"Canys y gyfraith a a allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerwsalem." (Eseia 2:3).

Jerwsalem yw prif ddinas grefyddol dros hanner y ddynoliaeth. I'r Iddew y mae'n symbol o'r gogoniant a fu a sail eu gobaith am y dyfodol. Cred y Moslem mai oddi yma y cychwynodd Mohamed ei daith i'r nefoedd. I'r Crisiton, yn Jerwsalem y gorffennodd Iesu ei weinidogaeth, ble bu farw ac atgyfodi o'r bedd.

Y mae cychwyniad Jerwsalem yn y gorffennol pell. Ceir y cyfeiriad beiblaidd cyntaf at y ddinas yn nyddiau Abraham (Genesis 14:18). Salem a ddefnyddir yno. Yn ôl tabledi (dogfennau) Tel-el-Amarna (tua 1400 cyn Crist; gelwid y lle yn U-ru-sa-lim, hynny yw dinas Salim, sy'n golygu dinas hedd.

Er bod Jerwsalem yn grud sawl ffydd a chredo, ac er bod ei henw yn cyfeirio at heddwch, bu hefyd yn ddinas waedlyd. Teimlodd ei phlant fin y cledd drwy gydol ei hanes hir. Ymladdwyd mwy o frwydrau tu allan i'w phyrth na'r un ddinas arall yn y byd. Cyffelybir cerdded o amgylch ac oddi mewn Jerwsalem fel cerdded ar fôr o waed dynol. Gwarchaewyd arni dros hanner cant o weithiau, concrwyd hi 36 gwath ac fe'i dinistriwyd hi ddeg gwaith.

Yn y ddegfed ganrif Cyn Crist meddianwyd y ddinas gan Dafydd gan ei gwenud yn Ddians iddo'i hun ac yno y cadwyd Arch y Cyfamod. Ers amser Dafydd bu llawer tro ar fyd yn hanes y ddians. Rhwng 965 a 922 C.C. harddwyd hi gan Solomon ac adeiladwyd y Deml. Yn 587 c.c. cipiwyd y ddinas gan y Babiloniaid, dinistriwyd y Deml, a chaethgludwyd yr Iddewon i Fabilon. Hanner canrif yn ddiweddarach dychwelodd yr Iddewon ac ail-adeiladwyd y Deml. Yn 332 C.C. cipiwyd Jerwsalem drachefn, y tro hwn gan Alecsander Fawr.

Erbyn yr ail ganrif Cyn Crist, Anticohus III, brenin Syria, oedd yn rheoli Palesteina ond fe'i gorchfygwyd ef yn 190C.C. gan y Rhufeiniaid. Nid oedd y Syriaid wedi gorffen ac yn 168 C.C. dinistriwyd muriau Jerwsalem a holl lyfrau'r Hen Destament a ellid eu darganfod gan Antiochus IV. Yn ei ymdrech i Roegeiddio'r Iddewon aberthodd Antiochus IV Fochyn ar allor y Deml. Esgorodd hynny ar gyfnod y Rhyfeloedd Maccabeaidd. Dro ar ôl tro gorchfygwyd byddinoedd Syria gan ddilwynwyr Judas Maccabeus. Yn dilyn hyn mwynhaodd yr Iddewon gyfnod o annibyniaeth o dan lywodraeth y Maccabeaid, hyd nes yn 63C.C. cipiwyd y ddians gan y Rhufeiniaid yn cael eu harwain gan Pompey.


Apwyntiwyd Herod Fawr yn frenin yr Iddewon YN 37C.C. Yr oedd Herod yn adeiladydd ac aeth ati i godi muriau'r ddinas ac ail adeiladu'r Deml gan roi iddi ogoniant mwy nag oedd iddi yn nyddiau Solomon hyd yn oed.

A dyna'r Jerwsalem a adwaenai Iesu. Yn 70 O.C. gan wireddu proffwydoliaethIesu (Luc 19:41-44) a 21:20;24), dinistriwyd y ddinas gan Titus mewn ymdrech i oresgyn gwrthryfel Iddewig.

Yn ystod y canrifoedd sy'n dilyn meddianwyd Jerwsalem gan wahanol genhedloedd, Rhufeiniaid, Persiaid, Arabiaid, Y Groesgadwyr, Moslemiaid, Twrciaid, ac yna yn 1917, o dan arweinyddiaeth y Cadfridog Allenby, gwelwyd milwyr Prydain ac eraill, yn cadw'r heddwch. Parhaodd y sefyllfa honno hyd 1949 pan y gwnaed Jerwsalem yn brif ddinas gwladwriaeth Israel.

Y mae'r muriau mawreddog yn perthyn i wahanol gyfnodau, gyda'r hyn a welir heddiw wedi ei adeiladu gan y Twrc, Suleiman yn 1542. Mesura'r mur ddwy filltir a hanner o hyd, gyda'r cyfartaledd uchder yn ddeugain troedfedd Y mae 34 o dyrrau sgwar ac wyth porth. Y mae i bob porth ei enw, Porth Newydd, Porth Damascus a Phorth Herod yn y mur gogleddol. Yn y mur dwyreiniol y mae Porth Sant Steffan a'r Porth Aur a gaewyd gan y Twirciaid yn 1530. Yn y mur deheuol y mae Porth y Dom a Phorth Seion ac i'r gorllewin y mae Porth Jaffa. Fel y Salmydd (Salm 122) dywedasom

"Ein traed a safant o fewn dy byrth di, O Jerwsalem."




*Jerwsalem o Fynydd yr Olewydd.*

Pan yrrwyd y Coresgadwyr allan o Jerwsalem gadawsant ddeg ar hugain o eglwysi a adeiladwyd yn ystod eu arhosiad. Yr eglwys sydd wedi ei chadw orau yw Eglwys Sts Anne, a adeiladwyd tua 1100 O.C. gan wraig Baldwin I yn y dull Romanesque. Adeiladwyd yr eglwys ar y crypt a barchwyd fel man geni Mair, mam Iesu. Wedi gorchyfugu'r Croesgadwyr sefydlodd Saladin ysgol ddiwynyddiaeth Foselemaidd. Yn 1856, ar ôl Rhyfel y Crimea, cyflwynodd Swltan Abdul Majid y safle i Napoleon fel gwerthfawrogiad o'i gymorth yn ystod y rhyfel.

Ychydig lathenni tu fewn i Borth St. Steffan y mae Llyn Bethesda. Yn nyddiau Iesu Safai'r llyn tu allan i'r mur gogleddol yn agor i Borth y Defaid a arweiniai i'r Deml. Dyma oedd cyrchfan cleifion y ddinas oherwydd credent fod y dyfroedd yn iachau clefydau. Yno yr iachaodd Iesu y gŵr a fu'n gloff am 38 mlynedd (Ioan 5). O dan rwbel canrifoedd daethpwyd, yn ddiweddar, o hyd i'r llyn. Roedd yn betryal o ran siap rhyw 350 troedfedd wrth 200 troedfedd a thua 25 troedfedd o ddyfnder. Amgylchynid y llyn gan bum porth. Y mae'r darganfyddiad hwn yn cadarnhau geiriau Ioan. Defnyddid un o'r pyllau i olchi'r defaid a ddygid i'w haberthau yn y Deml.

Wrth edrych ar Jerwsalem hawdd yw teimlo eich bod yn rhan o hanes sy'n ymestyn yn ôl dros ganrifoedd. Nid oes yno ffatrioedd yn byrlymu mwg a nwyon i'r awyr. Ni ddaeth diwydiant i greithio'r tirwedd ac ar wahân i sŵn trafnidiaeth fodern mae'r hen ddinas yn edrych yn debyg i'r hyn ydoedd yn nyddiau Iesu.

Yn ei gerdd 'Y Coed' y mae Gwenallt yn sôn am y chwe miliwn o goed a blannwyd yn Jerwaslem i gofio am y cyrff a losgwyd yn y ffyrnau nwy yn ymdrech Hitler i ddileu'r Iddewon oddi ar wybren y ddaear.



*Mr Cledwyn Parry o Lanberis, newydd werthu camel i Ali Hassan yn Jerico. Y mae'r camel yn edrych wrth ei fodd!*

"Coed sydd yn estyn eu gwreiddiau i ganol lludw pob ffwrn."

Ac meddai wedyn –

"Chwe miliwn o goed yng Nghaersalem, chwe miliwn, a thair croes,

Ac ar y ganol, yr Unig Un a fu'n byw'r Efengyl yn ei oes."

Breuddwyd gafodd y canwr o Sais ond gall rhai o ddarllenwyr yr Eco ddweud, "Yr hyn a welsom ac a glywsom yr ydym yn ei fynegi i chwi."

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£10.00 E.F. Owen, Y Gellidywyll, Bontdolgadfan, Llanbrynmair, Powys.

£5.00 Mrs Eunice Jones, Dokota, Llanberis.

£3.00 M.G. Rhes Marian, Deiniolen

£2.00 Mrs Betty Roberts, 7 Maes Eilian, Dinorwig.

Mrs Ellen Clase, 16 Maes Maria, Deiniolen.

## Dyddiadur y Mis

**Hydref 1, Iau:** DEINIOLEN: Cyfarfod y Chwiorydd - Festri Disgwylfa

**Hydref 2, Gwener** – DEINIOLEN: Gofalaeth Unedig Deiniolen. Noson Goffi – yr elw at Apêl Sahel.

BETHEL: Disgo yn y Neuadd – Yr elw at yr Eisteddfod.

**Hydref 4, Sul.** CEFN Y WAUN: Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd

**Hydref 7, Mercher.** BRYNREFAIL: Seiat Dosbarth – Agoriad i'r Maes Llafur.

LLANRUG: Plaid Cymru – Ymweliad â Theatr Gwynedd.

**Hydref 8, Iau.** WAUNFAWR: CLwb Gwyrfai yn y prynhawn.

BETHEL: Adran Leol yr Urdd.

**CAERNARFON A'R ARDAL:** Noson Goffi – Apêl y Galon, Gwesty'r Royal, Caernarfon 7 – 9 o'r gloch..

**Hydref 9, Gwener.** LLANBERIS: Te yr Henoed

**Hydref 10, Sadwrn.** LLANRUG: Eisteddfod

**Hydref 11, Sul.** LLANRUG: Capel Mawr. Gwasanaeth Diolchgarwch.

**Hydref 12, Llun.** BETHEL: Merched y Wawr – Dawnsio Gwerin Noddedig yng Nglangwna, Caeathro.

**Hydref 13, Mawrth.** LLANRUG: Merched y Wawr.

**Hydref 14, Mercher** BETHEL: Merched y Wawr.

**Hydref 15, Iau.** BETHEL: Yr Urdd – Disgo

LLANRUG: Cyfarfod y Chwiorydd, Pontrhythallt 2 o'r gloch.

**Hydref 16, Gwener** BETHEL: Pwyllgor y Sganiwr 7.30 yn y Neuadd.

**Hydref 18, Sul** CAEATHRO: Gwasanaeth Diolchagwrwch 5.30

DINORWOG: Eglwys St, Mair, Gwasanaeth Diolchgarwch.

**Hydref 20, Mawrth.** PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

LLANRUG: Cymdeithas Undebol Pontrhythallt

**Hydref 23, Gwener.** LLANBERIS: Te yr Henoed

**Hydref 25, Sul.** BRYNREFAIL: Cyfarfodydd Diolchgarwch am 10 y bore a 2 o'r gloch y prynhawn.

**Hydref 28, Mercher.** BRYNREFAIL: Sefydlaid y Merched. Dosbarth Arlunio.

## BECHGYN Y FRO V BECHGYN DULYN



*Yn ystod y mis diwethaf daeth tîm o fechgyn o Ddulyn ar ymweliad â'r fro. Cawsant wahoddiad i chwarae yn erbyn rhai o dimau dan 12 a dan 14 LLanrug. Yn y llun gwelir yr holl garfan a fu'n chwarae yn y gemau, gan gynnwys bechgyn o Lanrug, Bethel, Penisarwaun a'r Waunfawr. Er na fu 'Tîm y fro' yn llywddiannus, roedd pawb wedi mwynhau eu hunain, a hogia Dulyn wedi dotio ar y croeso. Fe fydd yr un croeso yn eu haros y tro nesaf hefyd, ond y gobaith yw mai 'hogia ni' fydd yn llwyddiannus!*


**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFLUE'**

**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376


## DECHRAU'R TYMOR RYGBI

Dechreuodd y tymor rygbi ers mis bellach ond ni ddechreuir rygbi i gyd yn lleol hyd diwedd mis Mędi a dechrau mis Hydref. Yn barod mae'r tri tîm rygbi Clwb Rugbi Caernarfon yn brysur ar y cae pob dydd Sadwrn a chynhelir sesiynau ymarfer ar Barc Coed Helen, dros yr Aber, o dan y goleuadau ar gyfer aelodau hen a newydd, profiadol a dibrofiad pob Nos Fawrth a nos Iau rhwng 7 a 9 yr hwyr. Gwybodaeth pellach oddi wrth y Clwb Rygbi ar lon Santes Helen yng Nghaernarfon – ffôn 4513.

Llynedd dechreuwyd tîm rygbi ieuenctid ar gyfer hogiau rhwng 16 a 19 oed. Dechreuir sesiynau ymarfer a hyfforddi nos Fawrth 29ain o Fedi am 7 yr hwyr dros yr Aber yng Ngahernarfon. Does dim angen unrhyw wybodaeth neu brofiad o chwarae rygbi yn yr ysgol o gwbl. Ar ôl cyfnod o ymarfer gyda'u gilydd bwriedir chwarae gemau yn erbyn timau lleol fel Pwllheli, Bangor, Bethesda, Dolgellau, Llangefni a Llandudno. Am wybodaeth pellach gellir ffonio Gareth Wyn Willams ar Caernafon 3857.

Cynhelir seisynau ymarfer a hyfforddiant bob bore dydd Sadwrn rhwng 10 a 12 ar y Morfa ger Ysbyty Eryri. Unwaith eto does dim angen profiad o gwbl a chwareuir gemau yn erbyn clybiau lleol eraill yn ystod y tymor. Gwybodaeth pellach oddi wrth Tudur Roberts (ffôn Caernarfon 2455) neu Gwilym Bee (ffôn Caenrafon 76618).


**CARTREF PRESWYL HENOED**



BRON ERYRI

**LLANBERIS, Ffôn: 870142 neu 870391**

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Lifft at bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y llofftydd
- Bath-medic

**Ymholiadu i Mr a Mrs A.W. Hughes (perchnogion) neu Mrs. Eirian Mali S.R.N. (Metron)**

**AELWYD GARTREFOL**

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd

**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**

# CHWARAEON

## PYSGOTA, Adroddiad H.P. Hughes

Drwy gydol Medi parhaodd y gyflewnad dda o ddŵr a dderbyniwyd i'r afonydd yn eithriadol o dda, ac mae'n dilyn felly fod pysgod glan wedi dod i'r Seiont ar bob llanw bron.

Yn unig broblem wrth gwrs yw fod rhannau isa'r afon yn 'sgota yn symol iawn, a'r darn o Bont Rug i fyny yn eithriadol o dda ar adegau. Dywedodd un pysgotwr profiadol wrthyf, nad oedd wedi gweld cymaint o eogiaid yn yr afon yma ers beth bynnag ugain mlynedd, hyn cyn adeg y clwy mawr yn 68-69.

Problem arall sy'n deillio o'r ffaith nad yw'r gwaelodion yn rhoi i fyny ei nifer arferol o bysgod, yw fod rhywrai heblaw yr eogiaid a'r Sewin yn teithio i ran ucha'r afon, sef nifer o hogia'r Dre. Gwelir y rhain yn aml iawn nawr yn ardal Llanrug, a chlywais rai yn cwyno fod "cofis ar ôl ein pysgod ni!"

Y rhai fu fwyaf llwyddiannus yn ystod y mis oedd Merfyn Harris, Felinheli gyda 4 rhwng Nazareth a Llanrug, y mwyaf yn 10 pwys. Donald Pritchard, Caeathro 3, dau yr un diwrnod o ardal Pontrug, y mwyaf yn 9 pwys. Bachgen ieuanc, Dylan Owen o Lanrug gyda ei dri eog cyntaf, o amgylch 8 pwys yr un. Goronwy Morris, Llanrug, 3 tua 8 pwys. Hefyd cafodd Gwyndaf Jones, Llanrug, James Carr, Llanrug, Emyr Owen, Deiniolen, Tony Brown ac Alan Jones Caernarfon i gyd bysgod yn pwyso o gwmpas y 7 pwys.

Rhaid hefyd beidio anghofio am Gwynfor Jones o Fethel. Dalioddd un tua 6 phwys yng Nghrawia, y creadur wedi cymeryd tosturi dros yr hen Gwynfor ac wedi rhoi ei hun i fyny iddo am ei fod heb gael 'sgodyn ers tua dwy flynedd!

Da gweld fod Dewi Jones, Bethel wedi cael hwyl dda arni ar y Sewin, ym mhyllau Crawia, 'rwy'n ama' yn gryf mai y fo sydd wedi bod yn rhoi gwersi i'w dad Gwyfnor.

Daeth dau eog eithriadol o dda i'r lan tua chanol Medi, un 17 pwys yn Stablau ac un 20 pwys y mwyaf ers blynyddoedd lawer yng Nghrawia i Arthur Morris o'r Wirral.

Symol iawn fu'r Gwyrfai a'r Llyfni, ond cafodd Aled Jones Caeathro, aml i noson eithriadol a dda gydag Eog a Sewin, Gywrfai.

## DRAENOG

**"Sbot bach ar y dudalen ôl, plis, cyn i mi fynd i'm gwely dros y gaeaf." Dyna apêl fy hen gyfaill, y Draenog, yn ystod y mis. "Ma 'na ddau neu dri o ddigwyddiadau sy'n berthnasol iawn i dy dudalen di wedi mynd â'm ffansi yn ystod y tymor."**

**Cwestiwn neu ddau wedi eu gosod ar ffurf cystadleuaeth (di wobr wrth gwrs). Cewch bum marc am ddyfalu enw 'r ddau berson ar ôl y cliw cyntaf, pedwar ar ôl darllen yr ail a.y.y.b.**

PERSON 1

1. "Dos o'm golwg i, allan o'r cae i lawr y lôn yna," meddai Ficar o Landudno wrtho, gan ei hebrwng drwy'r giât.
2. "Does dim hawl gan neb i fwcio gwyliwr cyffredin mewn gêm bêl droed", meddai'n arwr wrtho, "Wnes i ddim byd ond ysgwyd fy mhen mewn syndod ar eich disisiyns chi."
3. "Ond mi rydan chi'n swyddog o rhyw fath gyda chlwb pêl droed LLanrug?" "Nac ydw," medda'r cyn beldroediwr proffesiynol, pan aeth i holi ei dynged ar ddiwedd y gêm.
4. "Fedra i wneud dim felly, na fedraf," meddai'r Ficar, "ond datgan fod bywyd reffarîs yn ddigon caled heb iddynt gael dynion talgryf sy'n colli eu gwalltiau dros rhyw hen betha' bach dibwys."
5. "Na fedrwch," meddai'r athro o Ysgol Brynrefail, "Mi'ch gwela' i chi eto y Sadwrn nesaf pan fydd Llanrug yn chwarae ym Mhenmachno."

"Mae'n gwestiwn gen i, " meddai'r reff, "dwi am riteririo."



PERSON 2.

1. Un o Is-lywyddion Clwb Peldroed Llanberis.
2. Fe brynodd beldroed eleni i dîm Llanrug.!
3. Tra'n gwylio ei fab yn chwarae i ail dîm Llanrug, does ganddo ddim syniad pa dîm i'w gefnogi.
4. Fel y cochyn yna yn 'right back' fyddw'n i yn meddwl amdano pan oedd yn aelod o dîm llwyddiannus y Darrans yn y saithdegau.
5. Mae o'n byw bellach ym Mhenisarwaun ac ar y radio a theledu yn amlach na Hogia'r Wyddfa.

## YSGOL BRYNREFAIL

Pêl Droed yn erbyn Dyffryn Nantlle
Dan 13eg ennill 3 – 0: Dan 15eg ennill 3 – 1; Bechgyn Hŷn colli 3 – 0.

CRICED

Ar ddiwedd tymor yr haf dewiswyd Alan Pritchard, Nant Peris, i chwarae i dîm ysgolion Gogledd Cymru dan 13eg oed. Yn ystod gwyliau'r haf bu'n chwarae yn erbyn Ysgolion y De yn Aberhonddu. Mae Alan yn fowliwr addawol dros ben ond yn ddiweddar mae wedi bod yn yr ysbyty ac mae'n edrych yn debyg y bydd yn methu'r tymor pêl droed – gobeithio y bydd wedi gwella'n ddigon da i ail afael ar y criced yr haf nesa.

## PELDROED

Golwg y mis yma ar y ddau dîm o'r ardal sy'n cystadlu yng Nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch, sef eilyddion Llanberis a Llanrug.

Deuddeg tîm sydd yn y Gynghrair, ac ar hyn o bryd gweler y Darrans yn yr ail safle a Llanrug yn wythfed.

Y Cwpan Iau fu'n hawlio eu sylw y Sadwrn diwethaf, a'r timau yn cystadlu yn Llanberis am yr hawl i ymddangos yn yr ail rownd. Gwelwyd gêm gyfartal ddigon cyffrous ar adegau, gydag Ian Owen yn rhwydo dros Llanberis (ac yna'n methu a chic o'r sbotun) cyn i Dewi Williams lwyddo i ddod a Llanrug i delerau.

Bu tîm cyntaf Llanberis yn fuddugol yn Nefyn yng Nghynghrair Gwynedd, John Williams, Emlyn Roberts, Peter Roberts a Bryn Williams yn sicrhau sgôr o 4 – 1. Colli eto wnaeth Llanrug ym Mhenmachno, o 2 gol i 0.



**Dyma garfan ail dîm Llanberis:**
**Huw Jones a John Roberts (Gôl geidwaid); Richard Sharpe, Terry Saynor, David Evans, Kevin Jones, Dylan Williams a John Andrew Jones (Cefnwyr). Kelvin Jones, John Ifor Jones, Alan Williams, Terry Griffiths, Martin Williams a Gareth Williams (Canol y Cae), gyda Jason Roberts, Ian Owen, Andrew Griffiths, Alan Williams a Gwilym Williams yn flaenwyr. Gwilym yw Rheolwr y tîm hefyd, ac mae'r un brwdfrdyedd ganddo a phan ymunodd â'r Clwb gyntaf yn y chwe degau.**



**Carfan Llanrug yw Michael Roberts (gol geidwad), Andrew Hughes, Maldwyn Williams, A.V. Owen, Kevin Oliver, Kevin Owen, Gari Davies, Melfyn Jones, Barry J. Jones (cefnwyr); Emlyn Jones, Dewi Williams, Dafydd Jones, Gari Evans, Dewi Morris a Derfel Hughes yng nghanol y cae gyda David Roberts, Gwyn Morris a Martin J. Williams yn flaenwyr. Richard Melfyn Jones yw'r rheolwr.**



*Llanrug yn ymosod yn ystod y 'darbi' y Sadwrn diwethaf.*